# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 506 · Ionawr 2020 · 50c**

# Ffarwel a diolch Ceren



Daeth cyfnod Mrs Ceren Lloyd fel Pennaeth Ysgol Penybryn ac Ysgol Abercaseg i ben cyn y Nadolig wrth iddi hi ymddeol.

Penodwyd Ceren fel Dirprwy Brifathrawes ym Mhenybryn 23 mlynedd yn ôl wedi iddi dreulio amser fel athrawes yn Ysgol Maesincla, Caernarfon.

Cafodd Ceren gyfnod hynod llwyddiannus fel pennaeth ym Mhenybryn ac yn hwyrach ymlaen Abercaseg wedi i'r ddwy ysgol uno.

Arweiniodd y ddwy ysgol gan roi sylfaen gadarn ar gyfer bywyd i gannoedd o blant y Dyffryn. Cafwyd tystiolaeth glir iawn o'i llwyddiant hefyd wrth i'r ddwy ysgol gael eu hadnabod fel esiamplau ardderchog fu'n dangos y ffordd i eraill yng Ngwynedd.

Mi fydd colled mawr ar ei hol ond mae ein diolch iddi hi yn fawr ac mae'n gadael dwy ysgol sy'n parhau i osod safon y gallwn ni fod yn hynod falch ohono.

Cafwyd gwasanaeth i ddiolch yn fawr i Mrs Lloyd ar Ragfyr 20fed gyda phlant yr ysgol yn roi cyflwyniad arbennig. Gwelwyd fideos gan lawer o enwogion Cymru, cŷn ddisgyblion lu a ffrindiau a theulu Mrs Lloyd, i gyd yn dymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad. Ni fydd Ysgol Pen-y-bryn yr un peth heb Mrs Lloyd, ond rydym oll yn dymuno'n dda iawn iddi!

# Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2019



**Perfformiad Mwyaf Addawol - Llefaru : Llinos Ball, Ysgol, Llanllechid.**



**Cynrychiolwyr y Corau newydd dderbyn eu gwobrau. Y Buddugwyr - Ysgol Llanllechid, yn codi'r cwpan.**

Llais Ogwan

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Trystan Pritchard.

Y golygyddion ym mis Chwefror fydd Walter a Menai Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN. 01248 601167
E-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

**PWYSIG; TREFN NEWYDD O RIFYN IONAWR YMLAEN GOFYNNIR I'R DEUNYDD GYRRAEDD Y GOLYGYDD 5 DIWRNOD YN GYNT NA'R ARFER.**

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 1 Chwefror** os gwelwch yn dda. Casglu a dosbarthu **nos Iau, 20 Chwefror**, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

### EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Ionawr**

£30.00 (81) Gwenno Jones, Y Wern, Gerlan.
£20.00 (187) Beryl Orwig, Braichmelyn.
£10.00 (169) Rita Lewis, Pantglas, Bethesda.
£5.00 (146) Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel.

(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)

# Dyddiadur y Dyffryn

*Ionawr*

17 Llanast Llan. Pantomeim Cwmni Drama'r Llechen Las. Neuadd Ogwen.
18 Llanast Llan. Pantomeim Cwmni Drama'r Llechen Las. Neuadd Ogwen.
18 Bore Coffi er cof am Vernon Owen. Cefnfaes 10.00 – 12.00.
20 Te Bach. Ysgoldy Carmel, Llanllechid. 2.30 – 4.00.
30 Noson Bingo Santes Dwynwen. Neuadd Talgai am 7.00.

*Chwefror*

03 Merched y Wawr Tregarth. I'r Artig gyda Paula Roberts. Festri Shiloh am 7.30.
08 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
10 Cymdeithas Hanes D. Ogwen. David Jenkins. Festri Jerusalem am 7.00.
13 Cymdeithas Jerusalem. Mr. Thomas Hughes. Festri am 7.00.
19 Clwb y Mynydd yn ail-gychwyn. Neuadd Goffa Mynydd Llandygai am 2.00.
20 Noson Gasglu a Dosbarthu'r Llais Cefnfaes am 6.45.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Siop y Post, Rachub
Barbwr Ogwen, Bethesda

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon** Siop Richards

**Porthaethwy** Awen Menai

**Rhiwlas** Garej Beran

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

# Rhoddion i'r Llais

£8 Mr Gwynfryn Davies, Caernarfon
£10 Elwyn a Bet Jones, Bontnewydd
£18 Mr Ken Jones, Edgware
£22 Di-enw, Rachub
£10 Mr D W Thomas, Barrow in Furness
£5 Llewela O`Brien, Bangor.
£15 Er cof am Eira (Crocombe), Tai Teilwriaid, a fu farw yn 2018, "ac a fu yn gymar annwyl i mi," oddi wrth Paul Bernet.
£4.50 Richard M Owen, Tregarth

Diolch yn fawr.

# Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Yr Athro Deri Tomos oedd y darlithydd yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Gymdeithas. Yn ôl y disgwyl cafwyd noson ardderchog a bywiog, yn llawn gwybodaeth ddifyr am "Wyddonwyr Dyffryn Ogwen" ac eraill.

Dyma lun ohono, gyda rhai aelodau o'r gynulleidfa niferus, ar ddiwedd y noson.



## Ffalaffel ffacbys (chickpeas)

PANTRI PAT

**Cynnwys**
880 gram o ffacbys wedi eu coginio.
Llond llaw o ddail persli gwastad a choriander.
½ llwy de (bob un) o halen, pupur du, paprika a cwmin.
1 ewin da o arlleg.
1 nionyn (bach).
85 gram o friwsion neu geirch.
Mymryn go dda o olew olewydd.

**Dull**
Rhowch y cwbl yn y prosesydd bwyd a'i falu nes bydd yn stwns.

Ffurfiwch o yn beli bach siâp eirin a'u gosod ar hambwrdd wedi ei frwsio gyda menyn neu, well byth,

ar bapur gwrthsaim (greaseproof).

Cynheswch y popty i 200 gradd a'u coginio am 15-20 munud tan byddant yn grimp oddi allan.

Rhowch 2-3 mewn wrap gyda dail salad neu hwmws, tomatos, saws chilli neu dips fel gwacamoli,

hufen sur etc.

Mae'r pryd hwn i bawb, boed fegans, llysieuwyr neu fwytawyr cig.

**Londis Bethesda**
☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

DIFYRION

## RHY BOETH I'W FWYTA

Gallai Pupur Tsili poetha'r byd eich lladd. Mae'r hwn a elwir yn 'Dragon's Breath chili pepper' yn Saesneg mor boeth gallai beri sioc goradweithiol (sioc anaffylactig) gan losgi'r pibellau anadlu yn y corff a pheri iddyn nhw gau.



**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

# Prosiect Enwau Lleoedd Dyffryn Ogwen

**Gwahoddiad - Sadwrn, Chwefror 29ain yn Neuadd Ogwen**

Mae Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Llais Ogwan ac yn arbennig i bawb a gyfrannodd mor hael o'u hamser a'u gwybodaeth i'r prosiect o gasglu enwau caeau Dyffryn Ogwen y flwyddyn ddiwethaf.

Fel arwydd bychan o ddiolch mae'r Gymdeithas wedi trefnu cyfarfod anffurfiol i arddangos ffrwyth y llafur ac i drafod rhai o ganlyniadau'r casglu.

Mae'r cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer bore Sadwrn, Chwefror 29ain yn Neuadd Ogwen y cyfarfod i ddechrau am 9.30 o'r gloch.

Bydd y rhan gyntaf yn sesiwn agored dan ofal Dr Rhian Parry ac Ifor Williams. Ynddi dangosir sut y cofnodwyd yr enwau ar lein a bydd cyfle i bawb a gyfrannodd holi a gweld sut mae eu cyfraniad hwy yn plethu i'r darlun cyfan.

Yn yr ail hanner, wedi cael panad a sgwrs, bydd cyfraniadau byr i drafod rhai o enwau caeau mwyaf diddorol yr ardal.

Estynnir gwahoddiad cynnes i bawb ddod i'r cyfarfod, ni fydd tal mynediad a bydd y baned am ddim yn ogystal!

Dewch yn llu ac yn arbennig chwi ffermwyr caredig y dyffryn cyn i'r tymor wyna reoli eich amser.

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda ☎ 601902

**Eglwys Crist, Glanogwen**
*Gwasanaethau*
Pob Bore Sul:
Cymun Bendigaid Corawl am 11yb

Pob bore Mercher:
Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.

Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

Diolch i bawb a gefnogodd ein Te Nadolig ar 4ydd Rhagfyr, pan wnaethpwyd elw o dros £370.

Dymunwn Blwyddyn Newydd Dda i bawb, ac anfonwn ein cofion fel arfer at bawb sydd yn wael neu yn gaeth i'w cartrefi. Cofiwch gysylltu os am gael Cymun Cartref.

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau i Cristal a Rhys, Cefn y Bryn, ar enedigaeth merch fach, Enfys Celyn. Ar ddechrau mis Rhagfyr. Anrheg Nadolig gwerth chweil!

**Gorffwysfan**
Ar ddydd Sadwrn, 7 Rhagfyr, aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith Nadolig. Galw yn Siop Pringle's, Llanfairpwll i ddechrau, am goffi a thipyn o siopa, cyn mynd ymlaen i Westy'r Breeze Hill, Benllech, ble cafwyd cinio Nadolig ardderchog.

Diolch i bawb am y trefniadau ac am yr holl wobrau ar gyfer y raffl. Diolch hefyd i Dennis am baratoi taflen ar gyfer cael awgrymiadau ar gyfer gwibdeithiau 2020.

Byddwn eu trafod yn ein Cyfarfod Blynyddol yn Chwefror/Mawrth.



**Llongyfarchiadau i Rhys**
Llongyfarchiadau i Rhys Cross, mab Steven a'r ddiweddar Dawn Cross, am ennill gradd Meistr ym mhrifysgol Queen Mary Llundain am ei waith ymchwil yn maes Cysylltiadau Rhyngwladol.

Mae Rhys yn athro mewn ysgol uwchradd yn Surrey ac rydym yn dymuno'n dda iddo ef a'i bartner Emily ar gyfer y dyfodol.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Raymond Jones a'r teulu, Glanogwen, yn eu profedigaeth o golli chwaer, Michelle, Lôn Ddŵr, Carneddi yn ystod mis Rhagfyr.

**Gwellhad Buan**
Mae Margaret Williams, Rhos y Coed, Bethesda, yn ôl yn Ysbyty Gwynedd, ar ôl derbyn codwm hegar yn ei chartref. Fel cyfeillion a ffrindiau 'rydym am anfon ein dymuniadau gorau iddi, gan ddymuno adferiad llwyr a buan. Brysia adre Margaret!



**Llongyfarchiadau i Sioned Carran, gynt o 26 Ffordd Ffrydlas, Bethesda ar ennill gradd Baglor mewn Addysg o Brifysgol Otago, Dunedin, Seland Newydd. Mae dy deulu yma ym Methesda yn falch iawn ohonot ac yn dymuno pob lwc i ti yn dy yrfa.**

**Gwyn Jim**
Cynhaliodd Gwynjim gyfres o sioeau ar thema Lion King, pryd cafodd y gymnastwyr ifanc arddangos eu doniau i'w teuluoedd. Mae Gwynjim yn glwb gymnasteg ar stad ddiwydiannol Coed y Parc, lle mae gymnastwyr o'r ardal a'r tu hwnt yn cael hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg dan gyfarwyddyd Gwyn Owen a'i dîm o hyfforddwyr.



**Yr Eglwys Unedig**

*Y Nadolig*

Bu prysurdeb mawr yn ystod cyfnod yr Adfent, gyda dau wasanaeth arbennig yn adlewyrchu tymor y Nadolig. Ar fore Sul, Rhagfyr 8, tro'r plant oedd hi i gyflwyno stori'r Nadolig, a hyfryd dros ben oedd eu clywed yn canu a llefaru gyda'u hafiaith a'u brwdfrydedd arferol.

Yn dilyn y gwasanaeth, cafwyd parti yn y festri, a daeth Siôn Corn i rannu anrhegion. Diolch i Lowri, Menai, Alwenna a Fflur am drefnu'r cyfan. Diolch hefyd i'r rhieni am helpu i baratoi bwyd rhagorol ar gyfer y parti.

Ar y nos Sul canlynol, cynhaliwyd y Gwasanaeth Nadolig Cymunedol blynyddol, a chalondid oedd gweld tyrfa fawr wedi dod ynghyd ar noson mor anffafriol i glywed Côr y Penrhyn, Côr y Dyffryn, Côr Ysgol Dyffryn Ogwen, Côr Adran Bentref yr Urdd Dyffryn Ogwen a'r delynores Angharad Wyn Jones yn cymryd rhan.

Y llefarwyr oedd Angharad Llwyd, Nerys Williams, Joe Hughes, Barbara Owen, Dylan Davies a Lowri Roberts. Arweiniwyd y corau gan Owain Arwel Davies, Andrew Thomas, Angharad Llwyd a Menai Williams, a chyfeiliwyd gan Frances Davies a Gwydion Rhys. Beti Rhys oedd wrth yr organ.

Cafwyd noson fendithiol, ac o naws arbennig iawn, gyda chanu cynulleidfaol grymus dros ben, a gwnaethpwyd casgliad anrhydeddus tuag at elusen Y Groes Goch.

Hoffai Menai ddiolch o galon i bawb am eu cyfraniad gwerthfawr i'r achlysur.

Bu'r Ysgol Sul a'u hathrawon a rhieni yn brysur hefyd yn cynnal Bore Coffi, gyda'r elw sylweddol yn mynd at elusen 'Water Aid'. Diolch o galon i bawb a fu'n cynorthwyo mewn unrhyw fodd.




**Cofion**

Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r aelodau hynny sydd yn wael neu fregus o ran iechyd ar hyn o bryd, ac at y teuluoedd sydd yn pryderu amdanynt, gan obeithio y bydd 2020 yn flwyddyn well i chwi.

**Cyhoeddiadau'r Sul**

*Ionawr*

19: Y Parchedig Anna Jane Evans
26: Mr Owain Davies

*Chwefror*

2: Y Parchedig D Lloyd Hughes (10)
Trefniant Mewnol (5)****
9: Trefniant Mewnol (10 a 5)
16: Y Parchedig Mererid Mair (10)
Y Parchedig Megan Williams (5)

Yn anffodus, nid yw iechyd Y Dr Elfed ap Nefydd Roberts yn caniatáu iddo ddod i'n gwasanaethu ar hyn o bryd. Gobeithiwn y caiff wellhad llwyr a buan.

Dymunwn flwyddyn newydd dda, heddychlon a llawn bendith i holl drigolion Dyffryn Ogwen a thu hwnt.




## Braichmelyn

**Rhiannon Ifans**, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn a Mrs S. Saunders a'r teulu , Ceulan, Allt Capel Cwta yn ei profedigaeth o golli, gwr, tad a thaid.

Bu Brian Saunders yn mwynhau cael mynd ar ei feic yn fawr. Yr oedd yn ŵr hoffus, cyfeillgar a fyddai yn aml yn sgwrsio a phobl wrth eu pasio ar y ffordd.

**Swydd Rygbi**

Llongyfarchiadau I Rhys Jones, Llys Hedd gyn tar ei benodiad i swydd gyda Rygbi'r Alban. Bu Rhys gynt yn y fyddin cyn cael ei swydd newydd. Mae pawb yn falch iawn drosto ac yn gobeithio ei weld yn amlach pan y bydd wedi setlo yn y swydd.

MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
A. Ll. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

# CHWILAIR

## Hwiangerddi a Chaneuon eraill i blant

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | O | E | S | G | A | F | R | E | T | O | F | H | R | I | E | J | L |
| C | M | B | V | B | H | X | J | U | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H |
| M | D | W | H | ~~R~~ | ~~O~~ | ~~B~~ | ~~I~~ | ~~N~~ | ~~G~~ | ~~O~~ | ~~C~~ | ~~H~~ | U | Z | M | X | V | A | D |
| B | A | C | H | G | E | N | B | A | C | H | O | D | I | N | C | E | R | D | N |
| A | P | A | M | U | Q | U | S | O | F | R | P | Y | D | Q | Z | G | G | R | H |
| C | U | M | W | Y | N | O | Y | R | I | A | S | Z | N | U | T | E | F | D | X |
| U | P | W | R | H | N | C | Q | H | W | E | H | O | A | Y | E | E | E | G | E |
| O | M | H | E | P | T | D | T | C | B | B | C | U | D | U | D | C | J | P | L |
| T | M | I | V | V | D | C | D | B | B | F | R | F | Y | O | A | E | G | J | V |
| I | F | E | W | N | I | R | A | R | C | H | A | N | H | W | W | F | I | W | I |
| R | R | X | I | M | H | T | T | O | O | S | K | O | C | P | D | F | W | E | R |
| C | M | K | C | B | O | R | C | X | V | T | R | Y | A | H | N | Y | S | M | T |
| M | R | E | F | Y | J | D | Z | H | B | C | D | W | B | O | Y | L | S | I | C |
| R | A | I | X | N | I | L | X | J | J | M | B | R | G | W | M | B | T | R | E |
| X | B | W | R | W | G | L | A | W | M | D | X | K | O | F | A | A | U | E | P |
| C | Q | Y | O | I | L | F | E | R | Z | Q | R | O | I | T | M | C | C | M | T |
| D | G | W | D | A | U | G | I | B | A | C | H | S | L | L | W | H | Z | I | E |
| B | S | I | H | E | I | L | W | L | I | M | A | B | I | E | C | A | J | S | K |
| J | C | L | N | L | R | V | O | G | J | P | W | P | E | G | A | S | O | W | W |
| J | J | Q | U | L | F | S | V | T | X | E | U | G | C | H | D | S | L | P | Z |

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG O HWIANGERDDI A CHANEUON ERAILL I BLANT i'w darganfod, Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd, LL57 3NW, erbyn IONAWR 31. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Nid wyf wedi derbyn llawer o atebion ar gyfer chwilair Rhagfyr. Efallai fod prysurdeb y Nadolig, gyda theulu a ffrindiau wedi cymryd eich amser, a hefyd roedd y dyddiad cau yn gynt na'r arfer. Ta waeth, dyma chwilair arall ar gyfer blwyddyn newydd.

**Dyma atebion Rhagfyr:** Bern; Bratislava; Caerdydd; Caeredin; Dulyn; Helsinki; Lisbon; Llundain; Madrid; Oslo; Rhufain; Warsaw.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd; Helen Jones, Erw Las, Bethesda; Rosemary Williams, Tregarth; Jean Vaughan Jones, Rhiwlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch. **Enillydd Rhagfyr oedd:** Helen Jones, 43 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN.

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

# Pentir

**Calendr Adfent Byw Parchu Pentir**

Bu ymdrech rhai perchnogion tai ym Mhentir a Rhyd-y-Groes yn addurno eu ffenestri yn arwain i'r Nadolig yn llwyddiant mawr.

Goleuwyd ffenestr newydd pob noson rhwng 1af a'r 24ain Rhagfyr a chafwyd amrywiaeth o enghreifftiau, o'r crefyddol i'r seciwlar. Gwelwyd teuluoedd a grwpiau yn cerdded o amgylch y fro yn gwerthfawrogi'r ymdrechion.

Ar ôl y llwyddiant yma, bydd gofyn am arddangosfa arall yn 2020. Diolch i bawb a gweler ffotograffau o'r ffenestri ar y wefan ganlynol: www.pentir.org.uk

**Gweithgareddau Amrywiol Parchu Pentir**

Roedd rhai o'r cafnau blodau adeiladwyd flynyddoedd yn ôl yn cychwyn pydru a phenderfynwyd trwsio rhai ac adeiladu nifer o rai newydd.

Hefyd, plannwyd planhigion newydd gan obeithio gweld arddangosfa liwgar yn 2020 yn cychwyn o'r gwanwyn i'r hydref.

Yn ogystal, cafodd y lloches fysus a'r ciosg ble lleolir y diffibriliwr eu glanhau. Diolch i bawb am eu hymdrechion.

**Eglwys St Cedol, Pentir**

Clwb 100 Mis Rhagfyr 2019
1af. Rhif 38 Huw Redvers Jones Llanddanial
2ail. Rhif 17 E Valerie Amos Bethesda
3ydd. Rhif 25 Terry Jones Caernarfon

*Dathliad o'r Nadolig*

Nos Sul 22 Rhagfyr cafwyd noson i ddathlu Gwyl y Nadolig, dan arweiniad Gareth a Nia, Cafwyd datganiad cerddorol ar yr organ a'r clarinét gan Sharon Williams a Sioned Roberts, a datganiad gan Lleisiau'r Foel.

Cafwyd unawdau a deuawdau gan Helen a Eirwen ag datganiadau llafar gan Ann, Gaynor, Nia, Lyndon a Gareth.

Yn ystod y noson ymunodd y gynulleidfa i ganu carolau traddodiadol. I ddiweddu'r noson mwynhawyd mins peil a mulled wine. Diolch i bawb am ei cefnogaeth.

*Gwasanaethau'r Sul*

Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.30yb, croeso cynnes i chwi ymuno a ni yn y gwasanaethau:

19.1.20 Cymun Bendigaid
26.1.20 Boreol Weddi
2.2.20 Cymun Bendigaid
9.2.20 Boreol Weddi
16.2.20 Cymun Bendigaid

# Canlyniadau Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen 2019

**CANLYNIADAU DYDD SADWRN**

**Llefaru Meithrin**
1af: Evie Ray Niyreda, Ysgol Llanllechid
2il: Bobi Hughes, Ysgol Llanllechid
3ydd: Non Jones, Ysgol Llanllechid

**Unawd Meithrin**
1af: Gruff Lloyd, Ysgol Llanllechid
2il: Evie Ray Niyrenda, Ysgol Llanllechid a Mari Lena D'amora, Ysgol Abercaseg
3ydd: Popi Williams, Ysgol Dolbadarn

**Llefaru Derbyn**
1af: Gruff Owen, Ysgol Llanllechid
2il: Leo Nate, Ysgol Llanllechid
3ydd: Celt Hughes, Ysgol Llanllechid

**Unawd Derbyn**
1af: Erin Môn Roberts, Ysgol Abercaseg
2il: Cêt Ogwen, Ysgol Abercaseg
Cydradd 3ydd: Mali Non ac Efa Rhodd, Ysgol Abercaseg

**Llefaru Blwyddyn 1**
1af: Elsi Allsopp, Ysgol Llanllechid
2il: Efan Henri, Ysgol Llanllechid
3ydd: Lili Herbert ac Aled Gwyn Llywelyn, Ysgol Llanllechid

**Unawd Blwyddyn 1**
1af: Elsi Allsopp, Ysgol Llanllechid
2il: Lili Herbert, Ysgol Llanllechid
3ydd: Efa Gwen, Ysgol Llanllechid

**Llefaru Blwyddyn 2**
1af: Lili Mair Williams, Ysgol Llanllechid
2il: Grace Emily Owen, Ysgol Llanllechid
3ydd: Robin Glyn Owen a Nel Burgess, Ysgol Llanllechid

**Unawd Blwyddyn 2**
1af: Efan James, Ysgol Llanllechid
2il: Lili Mair Williams, Ysgol Llanllechid
3ydd: Seren Lois Roberts, Ysgol Abercaseg

**Llefaru Blynyddoedd 3 a 4**
1af: Gruff Beech, Ysgol Llanllechid
2il: Elan Morris, Ysgol Llanllechid
3ydd: Medi Tipton, Ysgol Llanllechid

**Unawd Blynyddoedd 3 a 4**
1af: Gruff Beech, Ysgol Llanllechid
2il: Cara Grace Lennox, Ysgol Llanllechid
3ydd: Emily Williams, Ysgol Llanllechid

**Llefaru Blynyddoedd 5 a 6**
1af: Gwenno Beech, Ysgol Llanllechid
2il: Llinos Ball, Ysgol Llanllechid
3ydd: Seren Mai Roberts, Ysgol Llanllechid

**Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau**
1: Gwenno Beech, Ysgol Llanllechid

**Unawd Blynyddoedd 5 a 6**
1af: Seren Mai Roberts, Ysgol Llanllechid
2il: Esther Parry, Ysgol Tregarth
3ydd: Gwenno Beech, Ysgol Llanllechid

**Parti Llefaru Ysgol Gynradd**
1af: Parti Ysgol Llanllechid
2il: Parti Ysgol Pen-y-Bryn

**Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau**
1af: Esther Parry, Ysgol Tregarth
2il: Harri Morgan Bale, Ysgol Llanllechid
3ydd: Tomos Owen Davies, Ysgol Llanllechid

**Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau**
1af: Esther Parry, Ysgol Tregarth
2il: Gruff Beech, Ysgol Llanllechid
3ydd: Gwenno Beech, Ysgol Llanllechid

**Grŵp Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau**
1af: Ysgol Llanllechid

**Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau**
1af: Parti Pen-y-Bryn
2il: Parti Amelie, Ysgol Llanllechid
3ydd: Parti Ceirion, Ysgol Llanllechid

**Unawd Cerdd Dant**
1af: Gwenno Beech, Ysgol Llanllechid

**Parti Cerdd Dant**
1af: Parti Ysgol Llanllechid

**Côr Blwyddyn 6 ac iau**
1af: Côr Hŷn Llanllechid
2il: Côr Pen y Bryn
3ydd: Côr Iau Llanllechid

**Grŵp Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau**
1af: Grŵp Calan Gaeaf, Ysgol Llanllechid
2il: Grŵp Effi, Ysgol Llanllechid

**Tarian Perfformiad Mwyaf Addawol am Lefaru:** Llinos Ball
**Tarian Perfformiad Mwyaf Addawol Cerddorol:** Esther Parry

**CANLYNIADAU NOS WENER (AGORED)**

**Unawd lleisiol agored**
1af: Erin Fflur
2il: Elin Mai

**Unawd Uwchradd**
1af: Erin Wiliams
2il: Elin Dafydd Evans
3ydd: Caradog Jones

**Unawd offerynnol**
1af: Gwydion Rhys
2il: Glyn Porter
3ydd: Ela Williams

**Perfformiad dramatig**
Cydradd gyntaf: Gwion Tudur ac Erin Williams

**Rhaglen o adloniant uwchradd**
1af: Ensemble Ysgol Syr Hugh Owen
2il: Côr Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd: Ensemble Chwyth Ysgol Dyffryn Ogwen

**Perfformiad mwyaf addawol cerddorol:** Gwydion Rhys

**Corau**
1af: Côr Meibion y Penrhyn
2il: Côrnarfon
3ydd: Hogia' Llanbobman

**CANLYNIADAU LLENYDDIAETH**
Englyn: Robin Evans, Caernarfon
Englyn ysgafn: John Owen, Rhuthun
Limrig: M A Jones, Rachub
Stori fer: Gwawr Jones, Bangor
Erthygl neu ysgrif: John Parry, Llanfairpwllgwyngyll
Sgets ddigrif: G R Williams, Groeslon

**Llenyddiaeth Uwchradd 7-9:**

**Cerdd neu ddarn o ryddiaith:**
1af: Cian Iolen Rhys, Ysgol Dyffryn Ogwen
2il: Mari Watcyn Roberts, Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd: Evie Roberts, Ysgol Dyffryn Ogwen

**Llenyddiaeth Cynradd:**
**Stori:**
1af: Seren Roberts, Llanllechid
2il: Amelie Drew, Llanllechid
3ydd: Mali Fflur Burgess, Llanllechid

**Barddoniaeth:**
1af: Cadi Williams, Llanllechid
2il: Sian Williams, Llanllechid
Cydradd 3ydd: Caleb Mcleod a Seren Davies, Llanllechid

**Medal yr Ifanc:** Beca Nia, Ysgol Dyffryn Ogwen
**Y Fedal Ryddiaith:** Marged Elen Wiliam, Bangor
**Y Gadair:** Martin Huws, Caerdydd

**CELF A CHREFFT**
**Coginio Blwyddyn 5 a 6:**
Cydradd gyntaf: Freya Jessica-Parker a Lois Elen Ryder, Ysgol Pen-y-Bryn

**Cywaith Creadigol Meithrin:**
Cydradd gyntaf: Meithrinfa Ogwen a Meithrinfa Llanllechid

**Cywaith Creadigol Babanod**
1af: Bl 1 a 2 Ysgol Llanllechid

**Cywaith Creadigol Adran Iau**
1af Bl 3 Ysgol Llanllechid

**Gwaith Creadigol Unigol**
**Bl 3 -** 1af: Lotti Evans, Ysgol Bodfeurig a Non Teleri Owen, Ysgol Pen-y-Bryn; 2il: Isaac Middle, Ysgol Bodfeurig; 3ydd: Owen Jones, Ysgol Llandygai
**Bl 4 -** 1af: Jessica Rockliff, Ysgol Tregarth; 2il: Iago Edwards, Ysgol Bodfeurig; 3ydd: Lauren Wyn Davies a Patrick Kiely, Ysgol Bodfeurig
**Bl 5 -** 1af: Matthew, Ysgol Llanllechid; 2il: Gwydion Eryri, Ysgol Llanllechid; 3ydd: Tomos Davies, Ysgol Llanllechid
**Bl 6 -** 1af: Sophie Duggan, Ysgol Bodfeurig, 2il: Mali Fflur Burgess-Williams, Ysgol Llanllechid; 3ydd: Blodwen Rebecca, Ysgol Llandygai

**Arlunio**
**Meithrin -** 1af: Evelyn, Ysgol Abercaseg; 2il: Elsi Ann Burgess-Williams, Ysgol Llanllechid; 3ydd: Haf Roberts, Ysgol Llanllechid
**Derbyn -** 1af: Amya, Ysgol Llandygai; 2il: Finley Brey, Ysgol Abercaseg; 3ydd: Tomos Evans, Ysgol Llandygai
**Bl 1 -** 1af: Lexii, Ysgol Abercaseg; 2il: Elsi, Ysgol Llanllechid; 3ydd: Eban Roberts, Ysgol Llanllechid
**Bl 2 -** 1af: Violet Griffiths, Ysgol Llanllechid; 2il: Seren Roberts, Ysgol Abercaseg; 3ydd: Angharad Llwyd, Ysgol Abercaseg
**Bl 3 -** 1af: Efa Williams, Ysgol Llanllechid; 2il: Jay Lotter, Ysgol Pen-y-Bryn; 3ydd: Lowri Owen, Ysgol Pen-y-Bryn
**Bl 4 -** 1af: Celyn Rhys, Ysgol Pen-y-Bryn; 2il: Emily Williams, Ysgol Llanllechid; 3ydd: Joel Hardman, Ysgol Tregarth
**Bl 5 -** 1af: Mabon Stammers, Ysgol Llanllechid; 2il: Effy Jones, Ysgol Llanllechid; 3ydd: Blodwen Jones, Ysgol Llandygai
**Bl 6 -** 1af: Mali, Ysgol Llanllechid; 2il: Lowri Haf Owen, Ysgol Pen-y-bryn; 3ydd: Llyr C, Ysgol Llanllechid
**Bl 7, 8 a 9 -** 1af: Nicola Wheatcroft, Ysgol Dyffryn Ogwen; 2il: Idris Morris, Ysgol Dyffryn Ogwen; 3ydd: Elsie Owen, Ysgol Dyffryn Ogwen

**Ffotograffiaeth**
**Cynradd -** 1af: Hollie Williams, Ysgol Llandygai; 2il: Lauren Jones, Ysgol Llandygai; 3ydd: Ziggy Grouse, Ysgol Llandygai
**Uwchradd -** 1af: Carys Wyn Thomas, Ysgol Dyffryn Ogwen; 2il: Lowri Mai Roberts, Ysgol Dyffryn Ogwen

**Cardiau Cyfarch (Cynradd)**
1af: Lois Ryder, Bl 6 Ysgol Pen-y-bryn; 2il: Caty Williams, Bl 3 Ysgol Pen-y-bryn

**Creu Llun Digidol ar Gyfrifiadur**
**Bl 3 -** 1af: Medi Tipton, Ysgol Llanllechid; 2il: Erin Jones, Ysgol Llanllechid; 3ydd: Efa Celyn Williams, Ysgol Llanllechid
**Bl 4 -** 1af: Poppy Williams, Ysgol Llandygai; 2il: Liberty Kerridge Edwards, Ysgol Llandygai

**Llawysgrifen**
**Bl 2 -** 1af: Athena, Ysgol Abercaseg; 2il: Angharad Llwyd, Ysgol Abercaseg; 3ydd: Jac D, Ysgol Abercaseg
**Bl 3 a 4 -** 1af Celyn Rhys, Ysgol Pen-y-bryn; 2il: Gethin Peinter, Ysgol Pen-y-bryn; 3ydd Bethan Rogers, Ysgol Pen-y-bryn
**Bl 5 a 6 -** 1af: Efa Jukes, Ysgol Pen-y-bryn; 2il: Tia Coburn, Ysgol Pen-y-bryn; 3ydd: Lois Ryder, Ysgol Pen-y-bryn

**Ysgoloriaeth**: Ella Baker, Ysgol Dyffryn Ogwen


**Rhaglen o Adloniant Uwchradd: Côr Ysgol Dyffryn Ogwen - 2il wobr.**


**Unawd Offerynnol: Gwydion Rhys, Ysgol Dyffryn Ogwen - 1af.**


**Rhaglen o Adloniant Uwchradd: Ensembl Chwyth Ysgol Dyffryn Ogwen - 3ydd.**



Y Côr Buddugol - Côr Meibion y Penrhyn.



Unawd Bl. 3 a 4: Gruff Beech - 1af; Cara Grace Lennox - 2il; Emily Williams - 3ydd (y tri o Ysgol Llanllechid)



Grŵp Dawnsio Disco Bl. 6 ac iau: Grŵp Calan Gaeaf, Ysgol Llanllechid - 1af.



Grŵp Offerynnol : Ysgol Llanllechid - 1af.



Llefaru Derbyn: Gruff Owen - 1af; Leo Nate - 2il; Celt Hughes - 3ydd. (y tri o Ysgol Llanllechid)



Llefaru Bl. 5 a 6: Gwenno Beech - 1af; Llinos Ball - 2il; Seren Mai Roberts - 3ydd. ( i gyd o Ysgol Llanllechid.)



Perfformiad Cerddorol Mwyaf Addawol: Esther Parry, Ysgol Tregarth.



Unawd Offerynnol Bl. 6 ac iau: Esther Parry, Ysgol Tregarth - 1af; Harri Morgan Bale, Ysgol Llanllechid - 2il; Tomos Owen Davies, Ysgol Llanllechid - 3ydd.



Parti Unsain Bl. 6 ac iau - Ysgol Peny bryn - 1af.




Ysgol Tregarth yn cystadlu ar y Parti Unawd Bl. 6 ac iau.



Parti Llefaru Cynradd: Ysgol Penybryn - 2il.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones**, Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards**, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Diolch**

Hoffai'r pentrefwyr ddiolch yn fawr iawn i Bwyllgor Neuadd Talgai am y bwyd ,a'r cwmni ar y 10ed o Ragfyr. Mae'r criw yma wedi paratoi ar ein cyfer am dros 16 mlynedd. Yn anffodus, dyma'r tro olaf, felly DIOLCH YN FAWR.

**Ysbyty**

Mae Mary Robinson, Fern Cottage yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, ar ôl codwm yn y tŷ.

Blwyddyn Newydd Dda a iach i bawb yn yr ardal. Gadewch i Eirlys neu Iona wybod am unrhyw newyddion o'ch cwmpas

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**

*Blwyddyn Newydd Dda!*

Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Nyffryn Ogwen. Hedd, hapusrwydd ac iechyd da i chi a'ch teuluoedd.

*Dathlu'r Nadolig*

Roedd Eglwys Sant Tegai Llandygai yn edrych ar ei gorau dros gyfnodau'r Nadolig a'r Ystwyll. Addurnwyd y goeden 'Dolig a'r adeilad gan griw bach o ffyddloniaid ar gyfer cyngerdd Nadolig Ysgol Llandygai, y gwasanaeth Naw Llith a Charol a Chymun



Hanner Nos Noswyl Y Nadolig.

Llongyfarchiadau i Bennaeth yr ysgol Mr Elfed Morgan Morris, staff ac wrth gwrs plant yr ysgol ar lwyddiant y 2 gyngerdd ac am barhau i gynnal y cyswllt agos rhwng ysgol ac eglwys.

Yn absenoldeb offeiriad arweiniwyd y Naw Llith a Charol gan y Wardeniaid Edmond ac Ann a'r Cynorthwyydd Ewcaristig Rhian. Diolch i'r darllenwyr a'r organydd Geraint Gill. Cafwyd gwin poeth a lluniaeth ysgafn Nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n paratoi'r eglwys ac i'r unigolion a gyfrannodd mor hael i'r bwyd wedyn.

Ar gyfer Noswyl y Nadolig arweiniwyd gwasanaeth hyfryd gan yr Archddiacon Mary Stallard. Yr organydd ac unawdydd oedd Geraint Gill.

Diolch i'r criw arferol am ganu'r clychau cyn y gwasanaethau – mae'n braf clywed y clychau'n seinio dros y dyffryn.

*Raffl Santes Dwynwen a Bingo'r eglwys nos Iau Ionawr 30*

Cofiwch brynu tocynnau raffl i ennill potel "champagne" ar gyfer diwrnod Santes Dwynwen! Mae'r elw at Gronfa Atgyweirio St Tegai.

Bydd y tocyn buddugol yn cael ei dynnu yn noson Bingo yr eglwys ar nos Iau, Ionawr 30ain am 7.00 yn Neuadd Talgai. Raymond a Pauline bydd yn ceisio cadw trefn ar y chwaraewyr felly croeso i chi atom i rannu yn hwyl y noson!

*Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai*

Gwasanaeth pob bore Mercher yn Sant Tegai am 10.15 y bore

Mae newid dros dro i drefn pob gwasanaeth Sul wythnosol, sef am 11.00 y bore.

Cofiwch gadw golwg ar hysbysfwrdd yr eglwys rhag ofn bydd newidiadau ar fyr rybudd.

# gair neu ddau

## John Pritchard

**Y Degawd Hwn**

Sôn am ddiwedd degawd a dechrau'r nesaf a wnâi llawer o bobl wrth i Ddydd Calan nesáu. Mewn erthyglau a rhaglenni bu pobl yn bwrw golwg dros y deng mlynedd ers i'r calendr groesawu dydd cyntaf Ionawr, 2010.

Mae deng mlynedd yn amser hir, ac fe ddangosodd y cip lleiaf ar yr erthyglau a'r rhaglenni hynny mor fuan yr anghofiwn ni rai o'r digwyddiadau a oedd ar y pryd yn hawlio sylw pawb ohonom. Digwyddodd llawer ar lwyfan gwlad a byd dros y deng mlynedd diwethaf.

Mae'r un peth yn wir am ein bywydau ninnau. Daeth deng mlynedd ag oes o brofiadau. Digwyddodd cymaint dros y degawd diwethaf. Ac eto, gwibiodd heibio.

Mae degawd, fel blwyddyn hithau, yn hir iawn ac yn fyr iawn yr un pryd. Bydd y degawd nesaf, i bwy bynnag a'i gwêl, yn llawn o amrywiol brofiadau da a drwg, melys a chwerw, llawen a thrist. Boed i Dduw ein gwarchod a'n bendithio bob dydd, a'n galluogi i ymddiried ynddo beth bynnag a ddaw.

A phwy a ŵyr beth a ddaw o ran yr Efengyl ac Eglwys Iesu Grist yn ein gwlad dros y degawd nesaf? Ydi, mae deng mlynedd yn amser hir. Mewn deng mlynedd gall llawer iawn ddigwydd.

Rwy'n ddigon o realydd, gobeithio, i gydnabod y gall y sefydliad crefyddol, ac yn benodol i mi fel Cristion y capeli a'r eglwysi, weld dirywiad pellach dros y blynyddoedd nesaf. O'r wedd ddynol, ac yn gymdeithasol a diwylliannol, mae'n anodd gweld unrhyw beth gwahanol. Mae cydnabod hynny yn boenus ac yn ddigalon wrth reswm.

Ac eto, nid oes raid iddi fod felly. Mae deng mlynedd yn ddigon o gyfnod i bethau newid yn syfrdanol.

Gallwn gydnabod ein hofnau a rhoi mynegiant i'n disgwyliadau gwaethaf. Ond mor bwysig yw cofio nad eiddom ni yw'r gair olaf yn y pethau hyn.

Gan Dduw y mae'r gair olaf o hyd. Ac felly, er mor anobeithiol y gwelwn ni bethau ar adegau, gall fod gan Dduw olwg wahanol iawn ar y cyfan. Y gwaethaf y medrwn ni ei wneud ar ddechrau degawd newydd yw credu ein bod ni'n gwybod beth a ddigwydd i'w Eglwys dros y blynyddoedd nesaf. Nid ydym yn gwybod; ni allwn wybod. Yr Arglwydd Dduw yn unig a ŵyr.

Ni allwn wybod; ond yr hyn y gallwn ei wneud yw gweddïo.

Beth petai'r degawd nesaf yn ddegawd o weddi i bobl Dduw yng Nghymru?

Gwaith Duw yw cenhadaeth yr Efengyl; gwaith Duw yw bywhau'r Eglwys; gwaith Duw yw codi eglwysi'n dystiolaeth iddo Ef ei Hun.

Fentrwn ni weddïo y bydd yr Un y mae'r gair olaf yn perthyn iddo yn cyflawni pethau mawr er mwyn ei ogoniant ei Hun?

## YSGOL PEN-Y-BRYN

**Panto!**
Aeth yr ysgol gyfan i Pontio, Bangor ar Ragfyr 11fed i weld panto Arwyr. Wel, am banto! Cafodd bawb gymaint o hwyl yn gwylio anturiaethau'r cymeriadau a chael cymryd rhan wrth iddynt ddatrys y dirgelwch. Panto ffantastig gyda phawb wedi mwynhau'n arw!

**Sain yn 50 oed!**
Bu blwyddyn 6 yn hynod o ffodus o gael mynychu diwrnod yn Stiwdio Sain yn ddiweddar. Cawsom ddiwrnod gwerth chweil yn dysgu am yr holl fandiau enwog sydd wedi recordio yno, yn ogystal a chanu cân gyda'r Welsh Whisperer. Profiad a hanner yn wir!!

**Banc Bwyd**
Diolch o galon i'r plant yn nosbarth Glyder a ddaeth a bwydydd i fanc bwyd Eglwys Gatholig Bangor. Cafwyd llond 8 bag o fwyd ac roedd cynrychiolwyr yr eglwys wedi gwirioni gweld gymaint ac yn dweud y byddai llawer iawn o bobl yn elwa o'u caredigrwydd. Diolch, blant a diolch am gofio am rai llai ffodus.



**Rownd a Rownd**
Ar ddiwrnod oer ym mis Tachwedd cafodd blwyddyn 6 y cyfle I ymweld a set Rownd a Rownd ym Mhorthaethwy. Pwrpas yr ymweliad oedd cael y profiad o weld set go iawn, a dysgu am dechnegau ffilmio / actio. Cawsom groeso cynnes iawn gan yr actorion a'r cyfarwyddwyr, ac rydym yn edrych ymlaen yn arw i gychwyn ar ein ffilm yn y flwyddyn newydd.

**Pentre Peryglon**
Ar Ddydd Gwener Rhagfyr y 6ed aeth blwyddyn 3 a 4 i Bentre Peryglon. Dechreuom y diwrnod wrth gymryd rhan mewn cwis rhyngweithiol er mwyn darganfod faint oeddem yn wybod am beryglon yn barod. Yna aethom o gwmpas y ganolfan gan ymweld a 6 parth.
**Parth 1**: Peryglon yn y Cartref – yn cynnwys lolfa, cegin, ystafell wely, garej a gardd

**Parth 2**: Camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar y safle adeiladu, bwlio

**Parth 3**: Diogelwch wrth deithio – yn cynnwys diogelwch ar y bws ac ar drên

**Parth 4**: Fferm a Chefn Gwlad – yn cynnwys ymwybyddiaeth o lifogydd

**Parth 5**: Diogelwch ar y Traeth/mewn Dŵr/ar y Ffordd

**Parth 6**: Diogelwch digidol yn cynnwys y Rhyngrwyd, ffonau symudol a siopa.
Roedd cynnwys bob parth yn cyflwyno negesuon pwysig mewn ffordd rhyngweithiol a ddiddorol. Ar ddiwedd y dydd gwnaethom y cwis eto ac y tro yma roedd ein sgôr gryn dipyn yn uwch. Mwynhaodd pawb yn arw.



## Y Gerlan

**Heledd Selwyn,** 2 Pen Clwt,
Gerlan LL57 3TJ
☎ 01248 208254 07880 702640
heleddselwyn@hotmail.com

**Croeso adra**
Dymunwn groeso mawr i Catrin a Dion i'w cartref newydd yn 2 Hen Gapel ar ôl blynyddoedd yn byw yn Redditch ger Birmingham.

Mae Catrin yn Nyrs ar ward y plant, Ysbyty Gwynedd a Dion yn dreifio lori i AGRO.

Croeso mawr iddynt, ond nid yw Catrin yn ddieithr i Gerlan oherwydd yma y magwyd hi yn Stryd Goronwy.

Hapusrwydd mawr i'r ddau ohonynt.



**Dyweddïo**
Llongyfarchiadau mawr i Zoe Williams a Dion Doyle ar eu dyweddïad ar ddiwrnod Nadolig!
Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt a phob hapusrwydd!

**Blwyddyn Newydd Dda**
Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Gerlan, ein cofion at bawb sydd yn wael, yn yr ysbyty neu gartref a dymunwn adferiad buan iddynt.

**Gareth Williams**
**Trefnydd Angladdau**

**Crud yr Awel**
**1 Ffordd Garneddwen**
**Bethesda**

**Ffôn: (01248) 600763 a 602707**

**GWASANAETH DYDD A NOS**

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

# Dychwelyd Plac

Yn rhifyn Hydref o'r Llais ysgrifennais am y Plac oedd ym meddiant Rhian Wood, o Rhoscefnhir, Ynys Môn.

Plac ydoedd yn coffáu John Elias Roberts, bachgen o'r ardal a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd Rhian yn awyddus i ddychwelyd y plac i deulu John, ond nid oedd yn adnabod unrhyw un o'r teulu.




Ar ôl i'r erthygl ymddangos yn y Llais cysylltodd Edgar Roberts, Borth, â mi yn dweud ei fod wedi ysgrifennu erthygl am Seindorf Bethesda 1910, lle mae yn crybwyll hanes ei dad a thri arall yn ymfudo i Awstralia.

Dyma fel mae'r adroddiad yn ymddangos yn rhifyn Chwefror 2013 o'r Llais.

"Roedd fy nhad yn un o bedwar o hogiau Pesda a aeth gyda'i gilydd i Awstralia ym mis Mai 1912, rhyw fis ar ôl llongddrylliad y Titanic, sydd felly dros gan mlynedd yn ôl.

Un ohonynt oedd John Roberts, mab Edward John Roberts, Cigydd, a brawd i Lelan Roberts a arferai gadw caffi y drws nesaf i'r Neuadd Gyhoeddus. Un arall oedd mab i Richard Jones, Llangollen, a oedd yn byw yn agos i'r Grisiau Mawr, drws nesaf i Mr. Griffith Edwards a gadwai dacsi ers talwm.

Nid wyf yn gwybod pwy oedd y pedwerydd. Ymhen amser ymaelododd John Roberts ym myddin Awstralia yn ystod y rhyfel cyntaf a chollodd ei fywyd yn Ffrainc.

Ychydig iawn o addysg yn ei famiaith a gafodd fy nhad yn Ysgol Tan Capel Bethesda, ac fel llawer arall cafodd aml i gansen am lithro i'r Gymraeg yn ystod gwers, ond ymgeisiodd i ysgrifennu tipyn am ei daith yn y Gymraeg.

Dyfynnaf ychydig frawddegau o'i ddisgrifiad yn gadael y Dyffryn yn 1912: "Y peth cyntaf a welais pan yn dwad o'r tŷ (o rhif 3 Rhes Mostyn) oedd y Band yn mynd i fyny'r heol yn chwarae, a phan oeddwn yn y brif stryd ni welais fwy o bobl erioed, a phawb yn sbïo o'r top (y stryd) i'r gwaelod arnom."

Fe arweiniodd y band y pedwar ohonynt i lawr y stryd i'r stesion. "Pan gyrhaeddais y stesion roedd hi'n orlawn. Yr orchwyl fwyaf anodd oedd ysgwyd llaw efo llawer ohonynt.

Nid oeddem yn cael lle i droi yno, a'r merched yn gweiddi "y pethau bach", ond roedden ni yn ôl reit. Fe gawsom barch mawr wrth ymadael. Ond mi ddoth y trên i mewn ac wedyn fuo rhaid i ni fynd i mewn, ac mi ddoth llawer iawn efo ni i Fangor i dalu'r gymwynas olaf i ni am beth amser.

Mi oedd y rhan fwyaf o'r hogiau (a oedd yn aros ar ôl) yn fwy digalon na ni, yn gweld eu hunain yn gorfod aros ar ôl oherwydd yr amgylchiadau caled.

Wedi i ni fod yn y stesion am dipyn dyma y mail yn dŵad, ac i mewn yr aethom reit g'lonog. Pan wrth Colwyn Bay dyma y lle y teimlais yn rhyfedd – gweld fy hun yn mentro taith mor bell."

Pan gyrhaeddodd yr hogiau Llundain, roedd gŵr o Fethesda o'r enw John Wheldon yno yn eu disgwyl, i'w tywys i'w llety – wedi aros yn y stesion drwy'r nos i'w disgwyl. Y bore canlynol roeddynt yn cychwyn ar eu taith o Tilbury am Awstralia, taith o chwe wythnos".

Ychydig ddyddiau wedyn cysylltodd John Bagnell, o Llandegai, gyda mwy o wybodaeth am amser John Elias Roberts pan oedd yn aelod o'r fyddin yn Awstralia.

Ond yn bwysicach na hyn, ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, cysylltodd Glenda Owen o Fangor â mi yn dweud mae brawd ei thaid oedd John Elias, ac byddai yn falch iawn o dderbyn y plac yn ôl i feddiant y teulu gan Rhian.

Ar ôl bod mewn cysylltiad â'i gilydd mae Rhian a Glenda wedi cwrdd a'i gilydd ychydig cyn y Nadolig ac mae'r plac nawr yn ôl gyda theulu Glenda ar ôl blynyddoedd maith. Mae Glenda a Rhian nawr yn bwriadu ymchwilio mwy i hanes John Elias Roberts.

*Diolch i Andre Lomozik.*

**DAFYDD CADWALADR**

**Cynhyrchion Coedlannol**

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

**01248 605207**




**C.L. JONES**

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu




**Bethesda 01248 600045**
**Caernarfon 01286 676070**
**Llangefni 01248 751677**

**Cludiant am ddim yn lleol**
**Stoc helaeth ac amrywiol**
**Staff cyfeillgar a phroffesiynol**
**Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y**

**Mynytho 01758 730768**
**Llanrwst 01492 640794**

**Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst**

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2019

**2020**

**Mawrth**
07 Cefnfaes - Plaid Cymru.
21 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
28 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

**Ebrill**
04 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
18 Cefnfaes – Cymdeithas Jerusalem.
25 Cefnfaes – Plaid Lafur.

**Mai**
02 Cefnfaes – NSPCC
16 Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.

**Mehefin**
06 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
20 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
27 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

**Medi**
12 Cefnfaes – NSPCC.
19 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
26 Cefnfaes – Plaid Cymru.

**Hydref**
17 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
24 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

Pwysig
Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon.

Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

## Marchnad Ogwen

**Chwefror 8fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Mawrth 14eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Ebrill 11eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

## CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN

Nos Lun, 10 Chwefror am 7.00yh
yn Festri Capel Jerusalem

**David Jenkins**
*"Hanes Cwmni Llongau Bethesda, 1877 - 1898"*

£1.50 wrth y drws neu am ddim i aelodau

## Grŵp Canu Ogwen (Sgwrs a Chân)

Pob bythefnos o'r 10 Ionawr ymlaen
1.30 – 2.30yp

(Panad a Sgwrs am 1.15)
**yn Ystafell Gymunedol Canolfan Feddygol Bethesda**

*Croesewir aelodau newydd sydd dros 50 oed, yn enwedig dynion*

## Cymdeithas Jerusalem

yn Festri Jerusalem
Nos Iau, 13 Chwefror
am 7 o'r gloch
gyda

**Mr. Thomas Hughes (Ymateb Cyntaf)**

I hysbysebu yn **Llais Ogwen, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

Eglwys St. Tegai, Llandygai

## NOSON BINGO SANTES DWYNWEN

yn Neuadd Talgai, Llandygai
Nos Iau, 30 Ionawr
am 7 o'r gloch.

Ysgoldy Carmel, Llanllechid

## TE BACH



Pnawn Llun,
20 Ionawr
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

## BORE COFFI YSGOL PENDALAR

**(er cof am Vernon Owen)**

SADWRN, 18 IONAWR
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

## GYRFA CHWIST

IONAWR 28
CHWEFROR 11 A 25
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**


11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

**DIFYRION**

## GWELD DWBWL

Mae mwy o efeilliaid yn awr nag a fu erioed yn hanes y ddynoliaeth. O 1915, pan ddechreuwyd cadw cofnodion tan 1980 tua 2% oedd y cyfartaledd geni gefeilliaid ond ers 2010 mae'r cyfartaledd wedi cyrraedd 3.3%.



I hysbysebu yn
**Llais Ogwan, Neville Hughes**
(nev_hughes@btinternet.com)

**CAFFI COED Y BRENIN**
**1 Rhes Buddug, Bethesda**
**Ffôn: 01248 602550**
karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
***(mewn awyrgylch cyfeillgar)***
**Cinio arbennig bob dydd Iau**
**Bwyd i'w gario allan**
**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**
***(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)***
**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**
**Prisiau rhesymol**

**BISTRO'R BRENIN**
**(Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

# Botwm



Dyma lun o fotwm y daeth Mathew Sturrs ar ei draws mewn cae uwchben y Carneddi rhai misoedd yn ôl.

Mae yn amlwg fod y botwm wedi gorwedd yn y cae ers blynyddoedd maith, gan fod wyneb y botwm wedi pydru yn arw.

Wrth edrych yn fanwl dan chwyddwydr mae'r enw J. neu S Ellis Bethesda i'w weld arno. Gofyn mae Mathew a oes unrhyw un o ddarllenwyr y Llais yn gallu rhoi ychydig o oleuni ar hanes y botwm neu a oes gan unrhyw un fotwm tebyg.

A oedd yna fasnachwr lleol yn cynhyrchu botymau unigol fel hyn, yntau a gafodd y botwm ei wneud yn arbennig i'r person o'r enw J. neu S. Ellis, gan gwmni oddi allan i'r ardal.

Cysylltwch a mi os oes genych unrhyw wybodaeth.

*Andre Lomozik.*

*Owen's* *Tregarth*
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat*
*a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

**Modurdy Central**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**

# Cynnig Gofal Plant Cymru

## Addysg gynnar a gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.



**Am fwy o fanylion cysylltwch gyda Uned Gofal Plant Gwynedd a Môn**

**Ffôn: 01248 352436 E-bost: gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru**

**SIOP OGWEN**

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

**01248 208 485**

**Elwyn Jones & Co**

**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**

**- Cyfreithwyr -**

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

***Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol***
***Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar***

***Swyddfeydd eraill:***

***Llangefni*** *(01248) 723106* ***Porthaethwy*** *(01248) 719517* ***Benllech*** *(01248) 852782*
***Caernarfon*** *(01248) 673616* ***Pwllheli*** *(01758) 703000)*

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)




# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Tregarth**

Blwyddyn Newydd Dda i bawb o ddarllenwyr Llais Ogwan gan drigolion Tregarth a'r cyffiniau!

Dymunwn adferiad iechyd i bawb sydd ddim yn teimlo yn dda ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion at bawb o'r ardal sydd mewn ysbytai, cartrefi gofal neu adre ar eu haelwydydd eu hunain.

Cofiwch, bawb, i ofalu am eich cymdogion yn ystod y flwyddyn ar ei hyd.

**Merched y Wawr**

Ni fydd Cangen Tregarth o Ferched y Wawr yn cyfarfod ym Mis Ionawr ond yn hytrach mi fydd y cyfarfod nesa ar Chwefror 3 pan roddir croeso i Paula Roberts sgwrsio ar y testun 'I'r Antartig'.

Bydd y noson yn cychwyn am 7.30 yn Festri Capel Shiloh. Cofiwch ymuno hefo ni!

**Capel Shiloh Tregarth**

Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol

| | |
|---|---|
| Ionawr 19 | Richard O. Jones, Gaerwen |
| Ionawr 26 | Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid |
| Chwefror 2 | Richard Gillion |
| Chwefror 9 | Gwynfor Williams, Caernarfon |
| Chwefror 16 | Dafydd Hughes, Caernarfon |
| Chwefror 23 | Eric Jones, Bangor |

**Penblwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i un o aelodau Shiloh a ddathlodd ei phen-blwydd arbennig ym Mis Rhagfyr, sef Iris Harper, Llandygai. Penblwydd hapus iawn Iris.

**Gwasanaethau y Nadolig**

Nos Sul, Rhagfyr 22 bu Oedfa Deulu y Nadolig yn Shiloh. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y plant a'r ieuenctid gyda'r Parchedig Jennie Hurd yn rhoi sgwrs ar agweddau o ddathlu'r Nadolig.

Y cyfeilydd oedd Christine Morris Jones a hi oedd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth.

Cafwyd lluniaeth i drefnu yn yr oedfa a daeth Sion Corn am dro i roi anrheg i'r ieuenctid.

Diolch i bawb wnaeth y gwasanaeth yn un cofiadwy. Diolch arbennig i Eirwen Williams am ofalu fod y capel yn hynod hardd wed ei addurno gyda rhosod y Dolig.

Noswyl y Nadolig bu Oedfa Gymun dan ofal y gweinidog Richard Gillion gyda Wyn Williams yn cyfeilio ar yr organ. Cafwyd bendith o fynychu'r oedfa hon hefyd.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Einir Wyn (gynt o Faes Ogwen) a Gareth Jones, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd Efa Fflur ar 6 Rhagfyr, yn pwyso 7 bwys 6 owns, i Bethan ac Arfon Roberts, Minffordd, Penrhyndeudraeth.

**Tregarth - Eglwys y Santes Fair**

Ionawr 19 Boreol Weddi
Ionawr 26 Cymun Bendigaid
Chwefror 2 Boreol Weddi
Chwefror 9 Cymun Bendigaid
Chwefror 16 Boreol Weddi

Pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30 y bore.

Cynhelir Te Crempog am 2 o'r gloch Dydd Mawrth 25ain o Chwefror.

Gyda dechrau blwyddyn newydd, dymunwn pob bendith a hapusrwydd i bawb. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu i'r gwasanaethau a hefyd i'r digwyddiadau codi arian y byddwn y neu cynnal.

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau Mis Rhagfyr, daeth Jeremy Corbyn (arweinydd Plaid Lafur Prydain) i ddarlithfa fawr Pontio, Bangor a oedd yn llawn o gefnogwyr brwd.

Cafwyd areithiau ganddo fo, Steffie (ymgeisydd Llafur Arfon) a Mary Roberts (ymgeisydd Llafur Môn).

Er i Steffie fethu ag ennill sedd Arfon, braf oedd gweld cynifer o cyn weithwyr a gweithwyr newydd yn cydweithio efo'r selogion i greu ymgyrch cangen effeithiol o dan arweinyddiaeth K.C. Gordon, Llanllechid.

Yn fuan ar ôl yr etholiad, cynhaliwyd parti yng Nghaernarfon i ddiolch i bawb am eu hymdrechion.

Os na fydd is-etholiadau, ni fydd etholiadau yn 2020; ond cynhelir etholiad Senedd Cymru yn 2021 ac etholiadau'r cynghorau yn 2022.

Cynhelir cyfarfodydd deufisol y gangen am 7:30 ar nosweithiau Mercher yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda – manylion gan yr ysgrifennydd (Godfrey Northam 600872)

# Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

**Cyngerdd Nadolig Ysgol Llanllechid yn Pontio**
Profiad hyfryd i holl aelodau'r côr oedd cael canu gyda phlant Ysgol Llanllechid yng nghyngerdd Nadolig yr ysgol yn Theatr Pontio, Bangor cyn y Nadolig. Roedd y theatr yn llawn i'w hymylon ar y noson ac roedd cael clywed dros 100 o blant o'r rhai ieuengaf i'r rhai hynaf yn canu carolau a chaneuon Nadoligaidd eraill yn bleser digymysg.

Canodd Côr y Penrhyn nifer o garolau a chaneuon eraill ac fe ymunwyd â'r plant i ganu mewn rhaglen o ganeuon ar y cyd ar ddiwedd y cyngerdd. Rhaid canmol y plant a'u hathrawon, yn arbennig eu hathrawes gerdd. am eu gwaith caled ac am eu dyfalbarhad a'u dycnwch yn dal i ganu ar noson oedd yn sicr yn un hir i'r plant lleiaf.



**Aelodau'r côr yn canu 'Hen Feic Peniffardding fy Nhaid' mewn noson anffurfiol yn Columbus, Ohio ar ôl perfformio mewn cyngerdd i 1500 o bobl o America a Canada.**

**Edrych ymlaen at flwyddyn newydd**
Gyda'r Nadolig drosodd a blwyddyn newydd lawn o'n blaenau mae'r côr yn paratoi am y daith i Ŵyl Fawr y Cymry yn Philadelphia yn niwedd Awst a dechrau Medi.

Hon yw'r drydedd daith mewn deg mlynedd i'r côr ymgymryd â hi ŵyl gan inni deithio I Cincinatti a Columbus yn gymharol ddiweddar a buom yn Vermont a Chicago cyn hynny. Côr y Penrhyn yw'r côr sy ar frig y rhestr gan drefnwyr yr ŵyl ac mae cysylltiad cadarn wedi ei wneud rhwng y côr a hwy.

# Cymeriadau'r Côr

Cyfres yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Jonathan Farrer o Fethel ger Caernarfon sy'n gweithio yn Ysbyty Gwynedd.

**Be' ydy dy enw llawn?**
Jonathan Farrer
**Oed** 55
**Gwaith** Gwasanaethydd Adran Llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd
**Lle wyt ti'n byw?** Bethel, ger Caernarfon
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?**
Llanfachreth ger Dolgellau
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr?**
20 mlynedd
**Pa lais wyt ti?** Tenor cyntaf
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Hoffi gwrando ar gorau a phob math o gerddoriaeth
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** Gwahoddiad
**Pwy ydy dy hoff ganwr/ gantores?**
Rhys Mwyn a Linda Healy
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?**
Dwi'n hoff iawn o ganeuon pop
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Seiclo a thynnu lluniau.






**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
**williamshy@parliament.uk**

Ogwen
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
**Proffesiynol, diogel a chyfrinachol**
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
✆ 07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Noson Carolau**

Cynhaliwyd noson o ganu carolau yn y Neuadd a oedd wedi ei haddurno yn arbennig o ddeniadol gan Elfyn a Cadi. Diolch i'r ddau.

Cafwyd eitemau gan y canlynol: plant ysgol Rhiwlas gyda'u hyfforddwr, Jonathan Davies, Cian Iolen, Eirwen Williams, Nia Roberts a Sharon Williams yn cyfeilio.

I ddiweddu'r noson roeddem yn cyd ganu carolau gyda Seindorf Arian Deiniolen o dan arweiniad Lois Eifion ac roedd hwyl ar y canu hefyd. Diolch i chi i gyd am eich parodrwydd i roi eitemau inni.

L. Sturrs
a'i feibion
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Cynrig oedd yn llywio'r noson ac Elwyn yn rhoi'r diolchiadau, Cafwyd paned a mins pei a diolch i'r merched am baratoi ar ein cyfer.

Diolch hefyd i'r rhai a ddaeth i gefnogi'r noson ac oedd pawb o'r farn inni gael dechrau da i'n paratoi at y Nadolig.

**Merched y Wawr**

Cawsom ein cinio Nadolig yn Breeze Hill, Benllech, roedd y tywydd yn erchyll ond yn gynnes braf yn y gwesty. Roedd un dyn bach wedi dod atom, Nico, ŵyr Annes ac roedd yn gartrefol iawn yn ein mysg. Diolch i Nia am drefnu'r cinio ac eitemau eraill.

Roeddem yn falch fod Gwen wedi medru dod i'r cinio gan dyma oedd ei chyfarfod olaf gyda ni gan ei bod yn symud yn ôl i Aberystwyth wedi treulio dros ddeugain mlynedd yn byw yn y pentref. Bu'n aelod selog yn y gangen, wedi llywyddu ac yn drysorydd ers blynyddoedd. Fe fydd colled ar ei hôl. Ond dymunwn yn dda iddi yn ei chartref newydd, cafodd dusw o flodau a hefyd gofynnwyd i Annes am gyfarchiad hefyd ac yn sicr roedd yr englynion yma yn addas iawn, diolch Annes.

I ddymuno'n dda i Gwen Aaron ar ei
hymadawiad â Rhiwlas
Er arfer â thir Arfon
ei mynydd ei mawnog a'i hafon
yn ei hôl yn awr â hon
I degwch Ceredigion.
Newid aelwyd, troi dalen –a'i heco'n
Moelyci, hyd gefnen,
a'r awel uwch Moel Rhiwen;
gwag iawn fydd Rhiwlas heb Gwen.

**Annes Rhagfyr 2019**

Treuliodd Gwen y Nadolig yn Ysbyty Gwynedd yn cael clun newydd, yn falch o glywed fod popeth wedi mynd yn iawn.

**Clwb Rhiwen**

Aeth nifer o'r aelodau am ginio Nadolig i gaffi Coed y Brenin, Bethesda a phawb wedi eu plesio â'r arlwy. Diolch i Dilys am wneud y trefniadau.

Mae rhai o'r aelodau heb fod yn dda yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a gobeithio y cawn eich gweld yn 2020. Buasai'n braf hefyd cael croesawu aelodau Newydd.

Rydym yn cyfarfod ar yr 2il 'r 4ydd bnawn Mercher o bob mis yn y Neuadd am 2 o'r gloch.

**Profedigaeth**

Yn frawychus o sydyn yn ei gartref, Tan y Foel, Caeau Gleision, ar drothwy ei ben-blwydd yn 75 oed bu farw Robert Thomas, neu Bob Bach Watkin Jones i lawer.

Yn enedigol o Llanddeiniolen, a'i ddiweddar fam, Nancy Jones yn un o Rhiwlas, wedi'i magu yn Rhes Penrhyn.

Cydymdeimlwn â'i wraig Menna, a'r plant, Paula a'i phriod Alun ac Arwel a'i briod Cyrina.

Roedd yn daid hwyliog i'w wyrion a'i wyresau ac anfonwn ein cofion at ei chwaer Gwenda a'r teulu i gyd . Mecanydd ydoedd wrth ei alwedigaeth ac yn un arbennig o dda ymhob sôn.

Cafwyd angladd preifat yn y cartref ac yna yn gyhoeddus ym Mynwent Llanddeiniolen. Derbyniwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag at Tŷ Gobaith.




## Calendrau Llais Ogwan 2020

Diolch i Gareth am werthu cynifer o galendrau eleni eto, hefyd ein dymuniadau gorau i'w frawd, Gethin sy'n cychwyn ar ei swydd newydd wedi graddio fel peiriannydd sifil.

**Diolch**

Hoffai Rhian a Jim Evans- Hill ddiolch am bob arwydd i o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn marwolaeth tad Jim yn Norwich ddiwedd Tachwedd.

Roedd Dr Aubrey Norton Hill yn 94 mlwydd oed. Fe dreuliodd amser yn ystod ei yrfa yn gweithio yn East End, Llundain gyda'r lleianod sydd i'w gweld yn y rhaglen Call the Midwife.

Bydd cyfraniadau er cof amdano yn cael eu rhoi tuag at yr elusen Lend with Care.

**Y Neuadd**

Cynhelir Bingo Santes Dwynwen yn y Neuadd, Nos Sadwrn, Ionawr 25, dewch draw i gefnogi'r noson.

**Bingo Santes Dwynwen**

Cynhelir Bingo Santes Dwynwen yn y Neuadd, Nos Sadwrn, Ionawr 25, dewch draw i gefnogi'r noson.

# YSGOL BODFEURIG

**Cinio Nadolig**
Roedd cyffro mawr fore Dydd Iau Rhagfyr 5ed. Roedd hi'n ddiwrnod cinio Nadolig a gwisgo het Nadolig. Cafodd pawb llond eu bol o fwyd blasus gan Anti Anwen a Anti Dana ac yn ddiolchgar iawn.

Roedd pawb wedi cael gwaith cartref i greu het Nadolig ac roedd bob un plentyn wedi ymdrechu gyda hetiau gwych yn dod i'r ysgol y bora hwnnw.

**Ymweliad dosbarth Idwal i weld Sion Corn**
Aeth dosbarth Idwal am y bore i Pili Palas i ymweld â Sïon Corn a gweld yr anifeiliaid. Roedd pawb wrth eu boddau yn rhestru beth oeddynt yn gobeithio cael gan Sïon Corn gan sgwrsio yn hapus.

Roedd y plant yn lwcus iawn i gael anrheg fach i fynd adref gyda nhw cyn mynd i'r lle chwarae.

**Sioe Nadolig**
Cafodd y rhieni gwledd o ganu, dawnsio ac actio Dydd Mawrth Rhagfyr 10fed tra bod y plant yn perfformio eu Sioe Nadolig 'Yr Hen Hen Stori' yn y neuadd Goffa Mynydd Llandegai.
Roedd chwerthin mawr wrth weld tri cŵl dwd a Donald Trump ar y llwyfan yn ogystal â gweld y stori draddodiadol Mair a Joseff a'r baban Iesu.
Diolchwn i'r plant am eu hymdrech dros y wythnosau ac ar y diwrnod mawr, perfformiad gwych gan bob un ohonynt.

**Rhodd Howdens Joinery**
Hoffem ni ddiolch i Howdens Joinery ym Mangor am eu cyfraniad o siocled i'r plant ac staff fel rhodd y Nadolig gan y cwmni. Ysgol ffodus iawn!

**Panto Adran Iau**
Cafodd y adran Iau fynd i Venue Cymru yn Llandudno Dydd Mawrth Rhagfyr 17eg i weld y panto 'Sleeping Beauty.' Pawb wedi mwynhau ac yn edrych ymlaen i'r un blwyddyn nesaf yn barod.

**Parti Nadolig**
Daeth dyn pwysig iawn i'r ysgol prynhawn dydd Llun Rhagfyr 16eg i weld y plant gydag anrheg fach o siocled. Roedd y plant wedi cyffroi wrth weld Sïon Corn a tynnu eu lun gydag o, cyn mynd ymlaen i'r neuadd i gael parti a disco. Cafodd plant yr adran Iau eu parti nhw prynhawn Dydd Iau 18fed gyda phawb yn mwynhau'r gemau, dawnsio a carioci. Dymunwn Nadolig Llawen i bawb!










# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS.
01248 605582 a 07887624459
henbarc13@gmail.com

**Newyddion**

Roedd yn dda gweld nifer o aelodau Capel Carmel yn Ffair Nadolig Capel Bethlehem (ei chwaer eglwys) yn gynnar yn mis Rhagfyr (lle gwnaed elw sylweddol) ac y mae rhai o aelodau Capel Talybont yn mynychu Te Bach Capel Rachub bob mis.

Wedi gweud ymholiadau ac ar gais gan cynghorwyr cymunedol Ward Rachub, penderfynodd Cyngor Bethesda yn mis Tachwedd i anfon cais i Gyngor Gwynedd i ofyn am caniatâd i osod lloches bws yn sgwâr Rachub. Am fod y bin ysbwriel newydd yno wedi cael difrod ,ffoniodd y cynghorwyr Cyngor Gwynedd i ofyn am un newydd.

Da oedd gweld cymaint o dai wedi eu goleuo dros wyl Y Nadolig ac i glywed am lwyddiant gwasanaeth tacsis newydd Rachub (A2B o Ffordd Llanllechid). Bu ychydig o newid i amserlen

bysiau Arriva ( yn enwedig yn gynnar yn y bore) ond y mae'n dda fod cymaint o fysiau'n dal i

redeg trwy Rachub

Llongyfarchwn Cynon Tomos ar gyrraedd 30 oed. Ers iddo briodi y mae o a'i wraig yn byw

ger Y Bala, ond y mae'n dal i weithio fel meddyg yn Ysbyty Gwynedd ac yn ymweld â bwrdd

gwerthu cyfeillion yr ysbyty'n rheolaidd. Rydym yn gobeithio denu ei rieni (Megan a Deri

Thomas, Llanllechid) i banel olygyddion Llais Ogwan i lenwi bwlch.

Cydymdeimlwn â theulu Iona Phillips (merch Jean a Derek Hughes, Maes Bleddyn) wedi

marwolaeth ei gwr, Dave. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Carmel dan ofalaeth Y

Parchedig Dafydd Coetmor o Ffordd Llanllechid.

Croesawn adref Millie a John Jones (Ystad Yr Ynys) ar ôl iddynt dreulio'r Nadolig ger

Plymouth, a Nia a Griff Elis Williams wedi iddynt dreulio cyfnod yn Y Wladfa (Patagonia).

Y mae Clwb Henoed Rachub yn apelio am aelodau newydd, yn enwedig dynion. Y maent yn cyfarfod brynhawn Dydd Mercher yn ysgoldy Capel Carmel bob mis am 2 hyd 3:30 y prynhawn gyda'r cyfarfod cyntaf ar Ionawr y 15fed a'r ail ar Chwefror y 12fed.

Diolchwn i'r trefnydd Ceinwen Hughes, Llys Eurgain, Braichmelyn am ei gwaith gwerthfawr dros y blynyddoedd.

**Clwb Hanes Rachub a Llanllechid**

Er gwaetha'r tywydd stormus, cafwyd cyfarfod 'Clwb Hanes' cartrefol iawn yn Festri Carmel y mis hwn. Noson gymdeithasol oedd hi - paned, mins pei a 'chacen bwdin' flasus, a wnaethpwyd gan Lynda Pritchard, yn dilyn rysáit lleol traddodiadol.

Ond yn sicr, uchafbwynt y noson oedd cael gwylio rhan gyntaf o ffilm gan Elin Pritchard, yn dangos rhai o gymeriadau Rachub yn sgwrsio am eu hatgofion personol am y pentref, Ffair Llan a ffermio. Gwych iawn, Elin, a diolch yn fawr.

Mae hwn yn gofnod pwysig dros ben o hanes ein hardal, ac mae pawb yn edrych ymlaen i wylio'r rhan nesaf!

Mae'n debyg y byddai rhai ohonoch chi'r darllenwyr yn gallu cymryd rhan yn y ffilm arbennig yma. Cysylltwch gydag aelodau'r Clwb os oes gennych unrhyw hanesion am Rachub a Llanllechid!

Yn y cyfarfod nesaf, Ionawr 29, 2020, bydd Mr Wyn Bowen Harries yn trafod '*Traddodiadau'r Mynydd'*.

Clwb Hanes Rachub a Llanllechid.
Nos Fercher, Ionawr 29, 2020 am 7 o'r gloch yn Festri Capel Carmel.
*Bydd Mr. Wyn Bowen Harries yn trafod 'Traddodiadau'r Mynydd' CROESO CYNNES!*

**Capel Carmel**
**Trefn Gwasanaethau ( am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)**

Ionawr 19: Cyfarfod Gweddi (Diaconiaid)

**Capel Carmel**

Ionawr 26: Gweinidog.
Chwefror 2: Gweinidog (Cymun).
Chwefror 9: Canon Idris Thomas.
Chwefror 16: Parchg. Gwyndaf Jones.
Croeso cynnes i bawb.
Ysgol Sul am 10.30. Clwb Dwylo Prysur, bob nos Wener am 6.30.
Te Bach. Dydd llun, 20 Ionawr. 2.30 – 4.00
Cofion cynnes at yr holl aelodau sy'n sâl gartref.
Yn ystod Rhagfyr bu i'r Capel golli aelod, sef Mrs. Violet Hazel Williams, gynt o Fangor a Rachub. Roedd yn 95 mlwydd oed, yn briod annwyl i'r diweddar Mr. Robin Williams, ac yn fodryb arbennig i Val, Janice, Roy a'r diweddar Raymond.
Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Carmel a Mynwent Coetmor fore Llun, 23 Rhagfyr, dan arweiniad ei gweinidog, y Parchedig D. John Pritchard a'r Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ.
Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu yn eich profedigaeth.
Hefyd, fore Sadwrn, 21 Rhagfyr, bu angladd y diweddar Mr. David Michael Phillips o Gilfach Crwys, Penrhosgarnedd. Roedd yn briod annwyl i Mrs. Iona Phillips ac yn dad hoffus i Cerys Ellen, yn fab ac yn frawd. Roedd yn fab yng nghyfraith i Mr. a Mrs. Derek Hughes, Maes Bleddyn. Bu farw Dave ar 11 Rhagfyr yn yr ysbyty yn Lerpwl yn 47 mlwydd oed.
Yn gwasanaethu yng Ngharmel oedd y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, a chafwyd darlleniad gan Jackie Gomez a theyrngedau gan Dan Pierce a Rob Joly. Mrs. Helen Williams oedd wrth yr organ.
Dymunai Iona, Cerys a'r teulu ddiolch i bawb yn ardal Rachub a Bethesda am eu harwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu colled trist o golli gŵr a thad arbennig iawn. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Walton Centre I.C.U. Diolch hefyd i Stephen Jones am ei wasanaeth.

**Ysgol Sul Carmel a Chlwb Dwylo Prysur**

Roedd Rhagfyr yn fis prysur iawn




Rhai o'r genod hynaf yn mwyhau

yn llawn gweithgareddau i ni. Bu plant yr Ysgol Sul yn ymarfer ar gyfer Gwasanaeth y Nadolig a gwneud gwaith llaw amrywiol.

Bu pobl ifanc Clwb Dwylo Prysur yn addurno'r capel gyda blodau coch a thorri cerdyn i mewn i siâp plant yn canu carolau. Roedden nhw'n edrych yn ddel iawn o gwmpas y capel.

Cafodd y plant barti Nadolig efo Sion Corn yn galw i'w gweld gyda siocled a llyfr Nadolig i bob un.

Cafodd y bobl ifanc 'buffet' Nadolig ac mi oedd Sion Corn wedi gadael anrhegion iddyn nhw hefyd.

Diolch i'r aelodau a ffrindiau am eu rhoddion o fwyd ac arian ar gyfer y partïon a diolch yn fawr i'r athrawon a phawb ddaeth i helpu yn ystod parti Sion Corn.

**Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul y plant a'r pobl ifanc ar 15fed o Ragfyr. Daeth cynulleidfa ardderchog i wrando arnyn nhw'n darllen a chwarae offerynnau. Cawsom ni fendith o gydaddoli gyda'r rhai ifanc yn yr Oedfa. Derbyniwyd £138 o gasgliad i'w roi tuag at waith yr Ysgol Sul.

**Gwasanaeth Bore Nadolig**

Cawsom wasanaeth hapus a chartrefol gydag aelodau, aelodau ifanc, ieuenctid a phlant yn cymryd rhan. Canodd Charmaine a Mabon garol bob un ac fe ganodd y plant lleiaf Efa, Nel a Sioned Sêr y Nos yn Gwenu. Cawsom ddatganiad hyfryd ar y cello gan Gwydion. Diolch i Owain am gyfeilio mor fedrus. Roed dyn braf cael croesawu Laura a'i gwr Aneurin a'u plant Sisial ac Erwan atom. Rhoddwyd y casgliad o £100 i Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol.







# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Wrth gloi f'ysgrif yn rhifyn d'wetha' *Llais Ogwan*, soniais am gerdded i lawr Lôn Chwaral a dilyn Afon Ogwen at Bont-y-Tŵr. Y tro hwn, wedi croesi Pont-y-Tŵr, i gyfeiriad y Lôn Bost, sylwn ar y ffordd fechan sy'n mynd â ni at Dy'n Tŵr lle mae'r tŷ hynaf yn Nyffryn Ogwen, sef Tŷ John Iorc, a godwyd tua 1450, a dwyn i gof wedyn, wrth groesi'r A5, am ysbryd Lewis Owen, sydd, *meddan nhw*, yn dal o gwmpas Croeslon Pont-y-Tŵr.

Roedd y cyn-filwr wedi ymosod ar ecseismon a dwyn tri swllt a chwe cheiniog o'i bres. Wedi dwyn ei geffyl hefyd a pheri i hwnnw neidio dros giât y tyrpeg, sy'n sefyll hyd heddiw ar y chwith ychydig lathenni ymhellach ymlaen na'r groeslon.

Ei gamgymeriad mawr oedd na thalodd am fynd drwy'r giât a phlesiodd hynny ddim ar William Thomas, ceidwad y tyrpeg. Cododd hwnnw ddynion a dilyn Lewis Owen ar gefn eu ceffylau bob cam o'r ffordd i Ddinbych a'r arestio yno yn Nhafarn y *Swan*.

Aethpwyd â Lewis Owen o flaen ei well a chafodd ei ddedfrydu i gael ei grogi yng Nghaernarfon ym 1822!

Wedi croesi'r A5, cyrraedd Gallt Capel Cwta, gyda chartref Hugh Jones, sef Capel Cwta, ar y dde gyferbyn â rhifau 1, 2, 3 a 4 Braichmelyn.

Yna, wedi mynd heibio ceg Rhes Jâms ar y dde, awn heibio'r tro bach ar y chwith sy'n arwain at dai Penygraig. Tybed a oes unrhyw un o ddarllenwyr *Llais Ogwan* a all fy ngoleuo ynghlych pwy oedd y Jâms hwnnw yr enwyd Rhes Jâms ar ei ôl?

Wrth gerdded ar hyd stryd Braichmelyn, a heibio Llys Hedd a Siop Mrs Johnson ar y chwith, 'allai neb beidio â sylwi bod y tai ar y dde wedi eu rhifo bob yn ail ar ôl Rhif 21: 23, 25, 27, 29, 31, 33.

Mae'n ddiddorol sylwi bod y ddau dŷ wedyn, sef rhif 35 (cartref Wili a Myfanwy Grace Parry gynt) a rhif 37 (lle'r oedd Owen John a Sally Buckley'n byw), *dau* dŷ lle'r oedd *tri* un tro. Mae'n anlwg fod hynny wedi golygu ad-drefnu mymryn ar y rhifau; y dyddiau hyn, rhif 41 sy'n dilyn 37 (ar ochr dde'r ffordd), gyda 42 fwy neu lai gyferbyn ac yna ceir 43 ar y dde, 44 ar y chwith, ac wedyn yn ôl at y tai ar y dde, sef 45, 46, 47, ac yn y blaen hyd at rif 59 (gyferbyn â rhes Cefn Cwlyn).

Dylwn egluro bod stryd arall (lle mae Ger-nant heddiw) yn arfer bod gyferbyn â'r tai a nodais ar ddechrau'r paragraff hwn (a rhifau'r rheini fyddai 22, 24, 26, 28, 30, 32, 34, 36, 38, 40) a'r enw ar adfeilion y rheini gan fy mam oedd 'Rhes Bach'.

Dw i heb ganfod (eto!) pam y penderfynodd yr Arglwydd Penrhyn chwalu'r tai hynny heb ddatblygu dim ar y safle nes codi tai Cyngor Ger-nant tua dechrau'r 1930au.

Wedi cerdded ar hyd Braichmelyn gydag Yncl Len a'r chwarelwyr eraill, byddai f'ewythr yn troi am ei gartref yn rhif 44 (lle cefais i fy ngeni) a minna wedyn dros y ffordd i rif 47 (lle cefais fy magu). Ac yna, edrych ymlaen, unwaith eto, at fynd i nôl Yncl Len i'r chwarel y diwrnod wedyn!

# Caerhun a Glasinfryn

**Cartref Newydd**
Pob hapusrwydd a dymuniad da i Huw a Sian Griffiths, Lydia, Elsi a Tomos yn eu cartref newydd, Caer Wredog, Waen Wen.

Mae'r enw yn tarddu ar hen enw ar yr ardal yn mynd yn ôl i'r Canol Oesoedd, pan oedd pentref yn bodoli.

Y mae tri tŷ yn y cyffiniau o'r enw Bryn Gwredog, Uchaf, Canol ac Isaf.

Yn ôl pob sôn bu brwydr waedlyd yn y Gaer a rhyw ffordd neu gilydd mae'r gair gwaedlyd wedi troi yn gwredog dros y canrifoedd. Stori ddiddorol, os oes gwirionedd ynddi ai pheidio !

**Bingo Nadolig**
Daeth nifer dda iawn i'r Bingo Nadolig yn y Ganolfan ar 13 Rhagfyr pryd y cafwyd noson hwyliog iawn gan godi £273 tua at achosion lleol o dan ymbarél Carnifal Bangor.

Diolch o galon am garedigrwydd a haelioni pawb a gyfrannodd at y noson.

Ni fydd Bingo ym mis Ionawr ond gobeithir trefnu un tuag at hanner tymor mis Chwefror.


## GWERSI PIANO

- Tiwtor cyfeillgar, amyneddgar, cymwysedig a chyda 40 mlynedd o brofiad hyfforddi.
- Prisiau rhesymol, a thalu ar gychwyn bob gwers, nid am wythnosau ymlaen llaw.
- Ni chodir tâl am absenoldeb oherwydd salwch.
- Rhiant neu ofalydd cyfrifol yn bresennol ym mhob gwers.
- Anogir bob disgybl i sefyll arholiadau'r Associated Board neu fwrdd arholi arall o ddewis y rhiant.
- Cynhelir gwersi trwy gydol y flwyddyn (yn cynnwys rhai gwyliau ysgol). Caniateir gwyliau ar amser arall trwy drefniant ymlaen llaw.
- Croesewir ail-ddechreuwyr hŷn (arholiadau'n ddewisol).

**Cysylltwch â: Gerwyn Llwyd, FVCM, LWCMD,**
**ar Bethesda 01248 602901**

Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead Cyf**

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk


# Marchnad Ogwen

Blwyddyn Newydd Dda i bawb o stondinwyr Marchnad Ogwen ac yn arbennig, i chi, ein cwsmeriaid. Dim cwsmeriaid, dim Marchnad!

Fe gawsom Farchnad hwyliog a difyr iawn eto ym mis Rhagfyr. Diolch yn fawr iawn i Hogiau'r Bonc am eu cyfraniad ac am gasglu tuag at yr elusen 'Cŵn Tywys i'r Deillion'.

Beryl Burgess oedd enillydd taleb £50 Marchnad Ogwen am eleni. 'Roedd yr holl gardiau glas (cerdyn ffyddlondeb y Farchnad) a ddefnyddiwyd yn ystod 2019 wedi eu rhoi mewn het ac mae'n dda mai enw Beryl - sy'n gwsmer ffyddlon - ddaeth allan. Da iawn Beryl a diolch am ein cefnogi.

Mae Stondin Elusen y Farchnad am fis Chwefror ar gael. Nid oes tâl am y stondin ac mae mudiadau yn yr ardal yn rhydd i wneud cais trwy'r ysgrifennydd - **ysgrifennydd@marchnadogwen.co.uk**

Bydd Cyfarfod Blynyddol y Farchnad ar yr 11fed o Chwefror yn y Douglas am 7 o'r gloch. Croeso.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan **www.marchnadogwen.co.uk** ac ar Facebook.

## Stondin y mis - Trysorau Tlws

Shirley Jones o Fraichmelyn yw perchennog y stondin diddorol yma.

Mae hi yn gwerthu edafedd, botymau unigryw, nwyddau wedi eu gwau, sebon a mwy.


Mae ganddi gapiau cynnes at y gaeaf a dillad plant wedi eu gwau gartref ganddi hi ei hun.

Mae edafedd amryliw ar y stondin a botymau i gyd fynd. Cyfleus ynte! Hefyd, mae nwyddau ymolchi gwahanol i'r arfer ar y stondin.

Felly, dewch i weld stondin Trysorau Tlws pan yn y Farchnad mis Ionawr - cewch groeso cynnes gan Shirley.



# Croesair Llais Ogwan



**AR DRAWS**

1 'Dyna hi' fy nghariad i lawr yn y berllan (cân werin) (4)
3 Ag arogl drwg arno (7)
8 Mae'r fro yn agos rywsut er yn drwsgl (7)
9 Gwneud cais (5)
10 Cân enwog Robat Arwyn "Yn ôl yn dy wenau, yn ôl yn dy freichiau" Pa bryd ? (5)
11 Mymryn i'w fwyta i aros (7)
12 Y pigog streipiog, ond nid ar gefn ceffylau chwaith ! (6,5)
17 Man caregog caled (7)
19 Apelio a chrefu (5)
21 Drws heb fod wedi ei agor (2,3)
22 Ei werthfawrogi'n fawr (7)
23 "fel y maddeuwn ------ -'n dyledwyr", meddai'r weddi enwocaf un (6,1)
24 Heb gwmni (4)

**I LAWR**

1 Yr ail drwg mewn dydd sy'n talu'r pwyth yn ôl (6)
2 Llwyth llong neu awyren (5)
3 Yn eithafol, ac wedi mynd yn rhy bell braidd (4,3,6)
4 Mae'n rhoi genedigaeth yn groes rywsut (5)
5 Sosialydd neu labrwr (7)
6 Swnio fel gŵr rhyfedd i fynegi a dangos pa un (6)
7 Ffrâm y corff (6)
13 'Hen -------', term o anwyldeb am ddynes oedrannus (7)
14 W.W. Yr 'Hen Bant' (6)
15 Cariwn yn flêr i'r wlad yn nwyrain Ewrop (6)
16 Oes angen coleg i benderfynu'n gywir ansawdd y pridd (6)
18 Pwll fel Cynheidre gynt (5)
20 Lliw (5)

**ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2019**

**AR DRAWS** 1 Call, 3 Llac, 5 Sôs, 8 Offa, 9 Efa, 10 Udo, 11 Mwg, 13 Nôl, 15 Leo, 17 Eli, 19 Peg, 21 Uno, 24 Sâl, 25 Wel, 26 Elli, 27 Chwa, 29 Ebe, 31 Wil, 33 Arf, 35 Plu, 37 Cri, 40 Awr, 41 Duo, 42 Ali, 43 Ann, 45 Yna, 47 Ras, 49 Asb, 50 Byth, 51 Ffydd

**I LAWR** 1 Cwm, 2 Llog, 3 Llan, 4 Cêl, 5 Sâl, 6 Suo, 7 Rhos, 12 Wal, 14 Ole, 16 Ein, 17 Erch, 18 Isa, 19 Ple, 20 Gwe, 21 Ulw, 22 Oel, 23 Llid / Dig, 28 Ŵyr, 30 Bol, 32 Iôr, 33 Adda, 34 Fan, 35 Pry, 36 Uda, 37 Côr, 38 Ias, 39 Cip, 44 Nes, 46 Nwy, 48 Amy

Blwyddyn Newydd Dda i chi oll, a diolch am eich cyfarchion caredig. Rhaid i mi ymddiheuro i ddechrau am flerwch trefn y cliwiau yng nghroesair y Nadolig. Digwyddodd rhywbeth rhyfedd wrth gysodi'r cliwiau i'w hargraffu. Roeddwn wedi gosod cliwiau AR DRAWS ac I LAWR yn daclus wrth ochrau ei gilydd, ond ymddangosodd y cwbl blith draphlith ac ambell un ohonoch wedi tynnu sylw at yr anhrefn. Ysgwn i mai dyna sydd i'w gyfrif fod llai nag arfer wedi cystadlu.

Y bwgan mawr y tro yma oedd cliw 7 I Lawr. Yr ateb cywir oedd 'Rhos' (fel yn Rhosgoch a Rhoscefnhir), ond cafwyd 'Môr' gan dri ohonoch, 'Môn' gan dri arall, 'Lôn' gan un, a 'Dôl' gan un arall. Hefyd cafwyd 'Oil' yn lle 'Llid' (23 I Lawr), 'Ona' yn lle 'Offa' (8 Ar Draws) a 'Ryw' yn lle'r ateb cywir 'Byth' (50 Ar Draws).

Llongyfarchiadau calonnog i'r canlynol am anfon atebion hollol gywir dan amodau dyrys: Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Iona Williams, Llanddulas; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; M. A. Jones, Rachub; Alwena Williams, Yr Wyddgrug; Dilys Wyn Griffith, Abergele.

Yr un sy'n cipio'r wobr y tro yma ydi Gwenda Roberts, Gorwel Deg, Rhosmeirch, Ynys Môn, LL77 7SJ. Da iawn chi.

Atebion erbyn dydd Gwener, 31 Ionawr, 2020 fan bellaf i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**Atebion erbyn 31 Ionawr, 2020 i 'Croesair Ionawr'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

**Enw** ..............................

**Cyfeiriad** ..............................

..............................

..............................

# Y Dyddiadur toriadau (17)

## Detholiad gan Derfel Roberts

**(sef adroddiadau o bapurau Newyddion Cymraeg fel 'Y Cloriannydd' a rhai eitemau eraill wedi eu gludio ar dudalennau dyddiadur bychan 10cm x 6cm [4m x 2½m] yn dyddio o 1933, oedd yn eiddo i John Owen, Garnedd Wen, Llanfairpwll).**

**Hanes Wmffra Robaits yr hen felinydd.**

*Ym Mhennod 16 adroddwyd stori am Wmffra a Twm, ei was, yn cydgerdded adre dan ddylanwad y ddiod feddwol. Bu hi bron â mynd yn ymladdfa rhwng y ddau ond penderfynu callio fu eu hanes ac ymwahanodd y ddau i fynd eu ffordd eu hunain am eu cartrefi. Yma awn ymlaen â'r stori fel yr ysgrifennwyd hi heb gywiro na newid fawr ddim ar yr iaith.*

Wedi i Twm ymwahanu a bod ar ei ben ei hun yng ngolau'r lloer daeth; ton o'r hen ysbryd crefyddol drosto, a dechreuodd fyfyrio am y nefoedd a chanai'r hen bennill hwnnw, "*wedi fy ethol cyn fy ngeni, wedi fy ethol wedi meddwi*".

Ac yn y teimlad hapus yna aeth i boced ei wasgod i chwilio am jou o faco ac i'w ddirfawr lawenydd canfu fod ganddo ddwy wasgod amdano a disgynnodd ar ei liniau i gydnabod y rhoddwr. Cyrhaeddodd adre dan ganu.

Ond - cysgodd yn hwyr bore drannoeth.

Yr oedd gan yr hen Wmffra amryw o fan ddeddfau o'i eiddo ei hun, a chosbedigaethau am droseddu'r deddfau hynny.

Yr oedd pob dirwy i'w thalu o gyflog y gweithiwr a byddai i ambell i bechadur go fawr fod mor anffortunus â phechu ei gyflog allan cyn nos Sadwrn. Yr oedd tafarndy yn ymyl y gwaith a elwid gan y meistr yn "Uffern" ac yr oedd cosb drom am fynd i "Uffern" a honno i ddyblu ac i dreblu am ail a thrydydd trosedd, a phan ddaeth dydd y cyflog un tro ni thalwyd mono i Twm. "*Dos i ffwrdd y cenna drwg, rwyt ti wedi bod yn "Uffern"; cythreuliaid sy'n mynd i fanno a thalai i ddim i gythreuliaid.*"

Dychrynwyd Twm am eiliad, ond wedi synfyfyrio daeth i'w gof fod yn yr iard bentwr o goed y byddai ei feistr yn bur ofalus ohonynt. Aeth gyda phob brys i'w ymofyn; rhoddodd hwy ar ei ysgwydd; pasiodd ei feistr gyda'i faich gan ddweud ei fod yn mynd a hwy i'w gwerthu am ei gyflog. *"Paid y lleidr a dwyn coed fy arch i,"* gwaeddai'r hen frawd nerth ei ben ond aeth Twm yn ei flaen heb wneud un sylw.

Llefodd yr hen fachgen nerth ei ben ar y forwyn; *"Mari, tyrd yma mewn munud. Rhed â'r arian yma i Twm. Mae o wedi mynd a choed fy arch i "Uffern" i'w gwerthu."*

Teimlai'r hen Wmffra'n bur ddig ar ôl colli'r treial yma a chadwodd wyliadwriaeth glos ar Twm rhag ofn ei fod yn mynd i "uffern" yn rhy aml, a chan fod raid i'r gwas weithio'r nos ar rai adegau prysur yn y felin arhosodd y meistr ar ei draed i'w wylio yn nhywyllwch y nos er ei fod; yn gredwr diysgog mewn bwganod a daeth y Twm y melinydd i ddeall hyn.

Pan fyddai Twm yn gweithio'r nos treuliai ran o'r dydd yn pysgota ac yn dal crancod a byddai yn eu cadw yn y felin ar adegau felly. Teimlai yn bur sychedig un noson ac yr oedd wedi deall fod ei feistr yn ei wylio a hithau yn nesu at ddeg o'r gloch, amser cau'r dafarn.

Ceisiai ddychmygu rhyw foddion i yrru ei feistr o'r ffordd er mwyn iddo gael gwydraid. Gwyddai fod ar yr hen Wmffra ofn bwganod o bob math.

Pigodd chwech o'r crancod mwyaf oedd ganddo yn y felin at bysgota; gafaelodd yn un o'r canhwyllau oedd ganddo yn y felin; torrodd hi yn chwe darn byr; cymerodd y lwmp pwti oedd yn sbâr ar ôl gwydro'r ffenestri a gwnaeth hwnnw'n chwe rhan.

Rhoddodd bisin o'r gannwyll wedi ei goleuo ymhob rhan o'r pwti a sticiodd hwy yn sownd ar gefnau'r crancod. Aeth â'r crancod at y drws a gollyngodd hwy allan a chymerodd pob un gyfleustra ar ei ryddid a chychwynasant am y môr.

Wedi iddynt rowndio'r gongl cafodd yr hen Wmffra olygfa arnynt a'r peth gyntaf drawodd ar glust Twm oedd twrw traed ei wyliwr yn ei gadael hi am ei babell. Tystiodd yr hen Wmffra hyd ei fedd ei fod wedi gweld canhwyllau corff yn mynd i'r môr o'r felin a bu'r ddyfais hon yn foddion i Twm gael llawer mwy o ryddid ewyllys yn y nos.

Y cwbl glywodd Twm gan ei feistr am yr helynt oedd ei annog i ddod â'r agoriad iddo ef yn bersonol bob bore ar ôl bod yn gweithio'r nos o hyn allan. Meddai'r hen feistr, "rwyf yn dechrau teimlo'n bur bryderus ynghylch dy fywyd di a mywyd innau ers pan welais gannoedd o ganhwyllau corff yn mynd o'r felin i'r môr ac felly mi leiciwn iti ddod i ddrws fy nhŷ bob bore i ddweud dy fod yn dal yn fyw."



(Llun: Cwmni Gwyliau Sykes)

**Hen Felin ar lan y Fenai ger Llanfairpwll, Ynys Môn sydd bellach yn cael ei gosod felt tŷ gwyliau. Mae'n bosibl mai hon neu un debyg iddi oedd un o felinau Wmffra Robaits.**

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500



**Eglwys St Cross**
*Gwasanaethau'r Sul:*
**Mis Ionawr 2020**: *Blwyddyn Newydd Dda bawb!*
19eg, 26ain - pob gwasanaeth am 11.00 a.m.

*Gweithgareddau eraill:*
**Bore Coffi**: Bydd yr un nesaf ar ddydd Mawrth, Chwefror 4ydd. Diolch am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon*
Ionawr 19: Mr. Dafydd Iwan.
Ionawr 26: Gweinidog.
Chwefror 02: Parchg. Dafydd Lloyd Hughes, Caernarfon.
Chwefror 09: Gweinidog (Cymun).
Chwefror 16: Parchg. Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

*Oedfa Nadolig*
Dyma lun o'r plant yn dymuno Nadolig Llawen i'r gynulleidfa ar ddiwedd yr oedfa ar ddydd Sul, 15 Rhagfyr, cyn mynd drwodd i'r festri am eu parti Nadolig. Diolch i bawb am eu cefnogaeth ac am gyfrannu at y casgliad o £106 tuag at waith Cymorth Cristnogol.

**Profedigaeth**
Ar drothwy'r Flwyddyn Newydd, anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu a ddioddefodd brofedigaeth lem ychydig o ddyddiau cyn y Nadolig.

Bu farw Guto, brawd Elin, Fferm Glan Môr Isaf, yn Ysbyty Gwynedd, ac yntau'n ddim ond pedair a deugain oed. Cydymdeimlwn â Rhian, ei fam, ym Mhen Llŷn; Elin a'i gŵr Owen a'r tri mab, Gwion, Eban a Wil, yn eu galar o golli un a oedd yn annwyl iawn ganddynt oll.

**CHRIS GRIFFITHS CYF**
**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

**Ysbyty**
Treuliodd Barry, 4. Min Ogwen , ychydig o amser ym Mhlas Ogwen, pan gipiwyd Ida, ei fam, yn ddi-rybudd i Ysbyty Gwynedd. Deallwn ei bod adref erbyn hyn, a dymunwm wellhad buan iddi.

'Fydd Barry byth yn mynd am dro hyd y pentref erbyn hyn, ond cofiwn am ei gymwynasgarwch yn dod â bin pawb yn ôl i'r tŷ cywir ar ddiwrnod hel sbwriel yn Nhalybont.

Dal yn Ysbyty Gwynedd mae Idris Thomas, yn dilyn codwm wrth ei gartref pan falodd nifer o esgyrn yn ei law a'i arddwrn yn dipiau. Dymunwn wellhad buan iddo yntau, er mae'n debyg y bydd yn yr ysbyty am gryn dipyn o amser eto.


**Diolch**
Dymuna Miss Dilys Williams, Plas Ogwen, ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau, yn Nhalybont a Bethesda, am yr holl anrhegion, cardiau, negeseuon ac ymweliadau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeg a phedwar ugain oed.

Hoffai ddiolch, hefyd, i bawb a fu mor garedig â rhoi cardiau ac anrhegion Nadolig iddi.

Mae pawb ohonom mor falch bod Dilys wedi cyrraedd ei naw deg. 'Fu bywyd erioed yn hawdd iddi ond, gyda chariad a chymorth ei theulu, yn enwedig Jean, ei chwaer, a gofal di-flino genethod Plas Ogwen, mae hi'n llwyddo i ddygymod â' phob anhawster efo gwên ar ei gwyneb, a gair o groeso a diolch i bawb. Gwraig arbennig iawn ydi Dilys.

**Judy**
Geneth sy'n ennill edmygedd ei chydnabod yw Judy Hughes, Tŷ Cerrig.






Mae hi wrth ei bodd yn gwneud jig-sos mor gymhleth na fyddai'r mwyafrif ohonom yn ystyried eu tynnu o'r bocs!

Astudio siâp a lliw'r darnau bydd Judy, yn hytrach na dibynnu ar y llun.

Roedd hi wrth ei bodd pan ddaeth perthynas iddi â phedwar jig-so newydd sbon o Canada. Fel y gwelwch, mae un wedi'i orffen yn barod!



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

PEN Y CEUNANT ISAF

Y BWTHYN TÉ
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW


01286 872 606




CWMNI DRAMA'R LLECHEN LAS

PANTO

LLANAST LLAN





Neuadd Ogwen, Bethesda,

Nos Wener, Ionawr 17eg, 7:00yh

P'nawn Sadwrn, Ionawr 18fed 2:30yp

Oedolion – £6
Plant – £3



DIFYRION

## HOLL BOBL Y BYD MEWN UN LLE

Fe ellid rhoi holl bobl y byd oddi mewn i Los Angeles. Mae poblogaeth yr holl fyd tua 7.5 biliwn. Mae hwnnw'n swm anferth ond mae rhywun wedi gweithio allan y gellid rhoi pob copa welltog oddi mewn i LA pe gosodid hwy ysgwydd wrth ysgwydd. Mae LA yn 500 milltir sgwâr yn ôl y cylchgrawn National Geographic.



STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com



**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

## Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Mrs. Carol Smith yn eu profedigaeth o golli mam annwyl. Bu Carol a'r teulu yn byw yn Arafon am flynyddoedd. Rydym yn meddwl amdanoch ar yr adeg trist yma yn eich hanes.

**Clwb y Mynydd**
Ni chynhelir y Clwb ym mis Ionawr. Bydd yn ail-gychwyn yn y Neuadd Goffa ar 19 Chwefror am 2 o'r gloch. Croeso i chwi ymuno â ni !

**2020**
Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref.

**Eglwys St. Ann a St. Mair**
Gwasanaethau: Pob Bore Sul am 9.30 y.b.

Cafwyd Noson Garolau llwyddiannus iawn yn y Neuadd Goffa dan ofal yr Eglwys a Chôr y Mynydd. Diolch i'r rhai a gefnogodd yr achlysur ac i Mrs. Lesley Thompson a'i chyfeillion am baratoi y lluniaeth ysgafn o fins peis a gwin cynnes.

Anfonwn ein cofion cywiraf at bawb sy'n wael neu yn gaeth i'w cartrefi ar hyn o bryd a dymunwn wellhad buan i chwi oll.







# Nyth y Gân

### Hen Fwthyn
Aros o hyd mae'r muriau gwyngalchog,
Ac yn gylch mae'r cloddiau;
Erys yno'r rhosynnau
Yn y giât mor dlws yn gwau.



*Caeau Gwynion*, paentiad gan Keith Andrew

### Barrug
Cynnar yw'r barrug heno, ac yna
Daw'r gwyn i oleuo
Y tir i glir ddisgleirio
Ar y maes ei batrwm o.

### Y Garddwr a'r Gwrych
Daeth o hyd i wyth hedyn, a'u rhoddi
Yn y pridd fu'n gychwyn
Hir achau i sawl gwrychyn
Yma yn llawn fel mewn llun.

### Llifogydd
Diafol yw'r ddôl ar ddilyw, â'r afon
Yn gryf yn creu distryw
Bygythiol i ddynolryw
A'n byd rhwng marw a byw.


### Dyfodiad y Gaeaf
Mae byd y cwm yn cysgu'n drwm,
Dim sôn am gân aderyn,
A llwydni marwaidd hyd bob man
Sydd yma'n rhan o'r cychwyn.

Daw'r barrug gwyn hyd lethrau'r bryn
Ar fore oer a thawel,
A dim i'w glywed o'r un fan
Ond murmur gwan yr awel.

Daw nosau oer o dan y lloer
Â'r rhew i lethu'r galon;
Bydd gorchudd gwyn ar frig y pren,
A llen ar ddŵr yr afon.

*Dafydd Morris*

### Y Paun
Unben â'i frith adenydd, – ymestyn
Fel meistr ei gynnydd;
Ei rodres llwyr a edrydd
Ei gamp ar lawnt rhwng y gwŷdd.



### Nico
Ei hud sydd mor drawiadol – yn esgyn
Ar ysgall mor ddoniol;
Ei dduw ef yw blodau'r ddôl,
A'i ddawn yw byw'n hamddenol.

### Criafolen yn y Gaeaf
Un egwan mewn unigedd, – heddiw'n llwm
Fu ddoe'n llawn gorfoledd,
Yn byw ar erchwyn y bedd
Yn oerni brwnt y Garnedd.

### Bronfraith
Y cantor â'i delor dwys, – y canu
Sy'n cynnau paradwys;
Rhydd i'r duwdod ei glod glwys
Yn ei emyn diamwys.

### Aderyn y To
Â'i lwyd siwt mae'n clyd swatio, – a'i esgyll
Fel gwasgod amdano,
Ond mae'n cynnil encilio
Â'i sain brin o ddrysau'n bro.

*Goronwy Wyn Owen*

# Rygbi

**Adran 1 Gogledd**

Hanner ffordd drwy'r tymor roedd Tîm Cyntaf Bethesda wedi chwarae 11 gêm, ennill 10 a cholli dim ond 1. Roedd hyn yn golygu bod hogia' Pesda ar frig y tabl cynghrair am y tro cyntaf ers sawl tymor.

Mae ysbryd da yn y clwb y dyddiau yma a'r gefnogaeth yn tyfu. Uchafbwyntiau'r tymor hyd yn hyn ydi curo Nant Conwy i ffwrdd ac adra' ac ennill i ffwrdd yn erbyn Pwllheli a'r Bala. Dyma'r clybiau sydd wedi rheoli rygbi yn y gogledd ers sawl tymor ac mae'r canlyniadau yma'n dangos sut mae gwaith caled a pharatoi trylwyr yn talu ar ei ganfed.

Un bwgan mawr ar y gorwel ydi'r pencampwyr presennol - Llandudno. Dim ond 1 pwynt yn llai na Bethesda sydd ganddyn nhw ac mae nhw wedi chwarae 1 gêm yn llai. Beth ydi gêm nesa' hogia' ni - ia, 'dach chi'n iawn - Llandudno i ffwrdd. A pha dîm sydd wedi ennill yn erbyn Bethesda y tymor yma? Ia - 'dach chi'n iawn eto - y nhw!

Erbyn i chi ddarllen hwn byddwn yn gwybod y canlyniad, ond, mae digon o gemau i'w chwarae, beth bynnag ddigwyddith.

Beth ydi cyfrinach llwyddiant Pesda'r tymor yma? Chwaraewyr profiadol sydd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth di-flino i'r clwb, dau neu dri o chwaraewyr sydd wedi ymuno yn ddiweddar a chwaraewyr ifanc sydd yn falch o gynrychioli eu clwb lleol. O ia - ymarfer yn gyson.

Fel ym mhob tymor, mae anafiadau yn digwydd i bob clwb. Cafodd y maswr dylanwadol Gerwyn Thomas, anaf drwg i'w benelin yn erbyn Nant Conwy. Yn yr un gêm, dioddefodd Gareth Ogwen rwyg i linyn y gar yn ei ail gêm yn dilyn triniaeth ar ei ben glin. Mae colled ar ôl y ddau. Brysiwch wella hogia'.


Prif sgoriwr y clwb hyd yn hyn ydi Gethin Long sy'n hanu o Langennech. Bydd rhai ohonoch yn cofio ei dad, Dai, yn chwarae i'r clwb flynyddoedd yn ôl. Mae Gethin wedi sgorio 104 o bwyntiau yn barod y tymor hwn - 9 cais, 16 trosiad a 9 gôl gosb.

Os am b'nawn difyr o wylio gêm galed a di-gyfaddawd, beth am ddod i lawr i gaeau Dôl Ddafydd. Cewch lawer o hwyl yn gwrando ar ein cefnogwyr ffraeth ac un-llygeidiog. Wedyn cewch ddiod o'ch dewis, neu bryd o fwyd yn ein clwb cymdeithasol newydd. Gwell na mynd i siopa tydi!




SAMARIAID
Mae Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 298763

Arfbais Douglas Arms
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
Oriau Agor
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 600219


BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

Bysus o 25 i 57 sedd ar gael ar gyfer eich holl anghenion teithio - tripiau, priodasau, partïon ac ati.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS


DIFYRION

## DIM COCA COLA

Ciwba a Gogledd Corea ydy'r unig leoedd yn y byd lle na allwch chi brynu Coca-Cola.




MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE